# Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales

## Cwmni Cyfyngedig drwy Warant

## Rhif Cofrestru'r Cwmni:  4635113

## Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

**Cynnwys**

**Tudalen:**

**1-8.** **Adroddiad Blynyddol**

**9-16 .** **Adroddiad y Cyfarwyddwyr**

**17-19.** **Adroddiad Taliadau**

**20-23.** **Adroddiad yr Archwilydd**

**24.** **Datganiad o Wariant Cynhwysfawr**

**25.** **Mantolen**

**26.** **Datganiad Llif Arian**

**27 – 41.** **Nodiadau a Pholisïau Cyfrifyddu**

Mae’r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno ynghlwm eu hadroddiad blynyddol, ynghyd â datganiadau ariannol archwiliedig y cwmni, ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022. Ar gyfer naratif yr adroddiad hwn, defnyddir ‘HCC’ yn lle Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales er mwyn bod yn gryno.

Cyflwyniad

HCC yw’r corff strategol statudol sy’n hybu ac yn datblygu diwydiant cig eidion, cig oen a phorc Cymru. Ei nod yw datblygu marchnadoedd proffidiol a chynaliadwy er budd holl randdeiliaid y gadwyn gyflenwi yng Nghymru.

Mae HCC yn gwneud gweithgareddau ymchwil a datblygu, yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi hyfforddiant sy’n berthnasol i bob rhan o’r gadwyn gyflenwi. Mae’n gwneud hyn er mwyn sicrhau bod diwydiant cig coch Cymru mewn sefyllfa i wella ansawdd, bod yn fwy cost-effeithiol ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion cig coch Cymru ym mhob rhan o’r diwydiant.

Gartref, mae HCC yn gweithio gyda nifer o adwerthwyr, cigyddion annibynnol a darparwyr gwasanaethau bwyd gan gynnal rhaglenni hyrwyddo rheolaidd ar gyfer Cig Oen Cymru PGI, Cig Eidion Cymru PGI a phorc o Gymru. Mewn gwledydd eraill, rôl HCC yw datblygu’r marchnadoedd sydd eisoes yn bodoli a helpu i sefydlu marchnadoedd newydd ar gyfer cig coch o Gymru. Mae HCC hefyd yn gweithredu fel gwarcheidwad i frandiau Cig Oen PGI a Chig Eidion PGI.

HCC yw ‘Tŷ Gwybodaeth’ y diwydiant; mae’n ganolfan ar gyfer casglu a dosbarthu gwybodaeth ar draws y diwydiant a’r llywodraeth. Mae HCC hefyd yn hysbysu’r rheini sy’n talu’r ardoll, rhanddeiliaid a’r cyhoedd yng Nghymru ynghylch y cyfraniad positif a wna’r diwydiant cig coch i gymdeithas ac economi Cymru ac ynghylch rôl HCC yn hybu ac yn datblygu’r diwydiant.

Nod yr adroddiad blynyddol hwn yw rhoi crynodeb byr o nodau strategol cyfredol HCC, y prif risgiau rhag cyflawni ei amcanion, a’i berfformiad yn erbyn y rhain yn ystod y flwyddyn.

## Adroddiad y Prif Weithredwr

Yn ystod 2021-22, parhaodd Covid yn ffynhonnell fawr o ansicrwydd, ar gyfer y diwydiant cig coch yn gyffredinol ac yn weithredol ar gyfer HCC.

Yn ystod cyfnod y pandemig, gwelwyd cynnydd yn y galw am gig coch o Gymru yn sector manwerthu’r DU, a phrisiau gwartheg a defaid cyson uchel. Ond roedd Covid hefyd wedi tarfu ar farchnadoedd allforio a’r galw am wasanaethau bwyd, ac wedi arwain at lefelau uchel o ansicrwydd ynghylch sut byddai cynhyrchwyr cynradd yn ymateb o ran lefelau stocio.

Roedd y bygythiad o dariffau allforio i farchnadoedd mwyaf Cymru yn yr UE wedi cael ei ddileu ddiwedd y 2020au, diolch byth. Fodd bynnag, roedd effeithiau tymor hwy Brexit yn parhau ar ffurf gwaith papur ychwanegol, a phrinder llafur yn y sector prosesu a thrafnidiaeth, er bod Cymru wedi cael ei harbed o’r problemau difrifol a welwyd yn y diwydiant porc mewn rhannau eraill o’r DU.

Roedd y ffactorau uchod, ynghyd â materion byd-eang ehangach fel galw mawr am fewnforion yn Tsieina a tharfu ar gynhyrchu mewn rhai gwledydd cynhyrchu allweddol, yn cyfrannu at sefyllfa lle’r oedd y cyflenwad o anifeiliaid – yn enwedig gwartheg – ar y farchnad yn anarferol o dynn.

Daeth y flwyddyn i ben gydag ansicrwydd pellach o ran cyflenwad a galw, gyda chwyddiant cynyddol yn achosi pryderon difrifol am gostau mewnbwn ffermwyr, elw proseswyr a phŵer gwario defnyddwyr.

Yn yr un modd â 2020-21, ymatebodd HCC yn gyflym ac yn hyblyg i amgylchiadau a oedd yn newid yn gyflym. Cafodd ymgyrchoedd defnyddwyr eu cyflwyno er mwyn manteisio ar newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr, a gwelwyd llwyddiant arbennig mewn gweithgarwch ar y cyd gyda nifer o adwerthwyr yn y DU.

Yng nghyd-destun defnyddwyr a pholisi ehangach, parhaodd HCC i wneud gwaith ymchwil i ategu nodweddion cynaliadwyedd amaethyddiaeth a chynhyrchu cig coch yng Nghymru. Dangosodd ymchwil fod defnyddwyr allweddol yn edrych ar ein brandiau mewn ffordd gadarnhaol yn hyn o beth, a bydd hyn yn parhau yn faes gweithgarwch strategol hanfodol.

Roedd adroddiadau ac archwiliadau allanol yn cadarnhau enw da HCC am reolaeth ariannol a llywodraethu darbodus, gan roi’r sefydliad ar y sylfaen gadarnaf bosibl ar gyfer ymateb i amgylchedd sy’n newid yn gyson.

Felly, parhaodd HCC i gyflawni yn erbyn nodau uchelgeisiol a amlinellwyd yn ei ddogfen Gweledigaeth 2025, er mwyn darparu’r gwerth gorau posibl ar gyfer yr Ardoll Cig Coch a’r arian cyhoeddus a fuddsoddwyd.

**Gwyn Howells**

Cyd-destun

Adolygwyd nodau strategol HCC yn ôl yn 2017-18, gan arwain at lansio dogfen newydd o’r enw ‘Gweledigaeth 2025’. Mewn cylch gwaith statudol digyfnewid, diffinnir nodau allweddol y sefydliad fel a ganlyn:-

1. Gosod cig coch o Gymru fel cynnyrch premiwm.
2. Datblygu cyfleoedd masnachu yn yr UE ar gyfer cig coch Cymru.
3. Sicrhau’r defnydd mwyaf posibl o gig coch o Gymru ym Mhrydain.
4. Chwilio am ddefnyddwyr newydd ar gyfer cig coch Cymru yn fyd-eang mewn marchnadoedd sy’n bodoli.
5. Sicrhau canran uwch o allforion cig coch Cymru y tu allan i’r UE.
6. Datblygu diwydiant cig coch Cymru sydd yn gystadleuol.
7. Lleihau effaith cynhyrchu a phrosesu cig coch Cymru ar yr hinsawdd, yr amgylchedd a gwastraff.
8. Cynllunio wrth gefn o ran masnachu, cynhyrchu a phrosesu yn y dyfodol ar ôl Brexit.
9. Cyfathrebu effeithiol ledled y diwydiant i sicrhau undod o ran bwriad.

Nid oedd cyfraddau'r Ardoll Cig Coch wedi newid ar gyfer y flwyddyn ond cafwyd gostyngiad yn incwm yr ardoll oherwydd yr amodau masnachu anodd i broseswyr.

Eleni, cynhaliwyd y trefniadau Adsefydlu Ardollau hirddisgwyliedig, a oedd yn galluogi HCC i gael incwm ychwanegol o'r ardoll i gynhyrchwyr ar anifeiliaid a fagwyd yng Nghymru ond a laddwyd yn Lloegr neu yn yr Alban.

Roedd hyn yn disodli trefniant y Gronfa wedi'i Chlustnodi dros dro – cronfa a oedd yn cael ei gwario ar brosiectau ar y cyd gan HCC, y Rheolwr Ansawdd, Safonau a Rheoleiddio ac AHDB a oedd yn bodoli o fewn cyllideb AHDB.

Cafodd y dull ar gyfer trosglwyddo arian o dan y broses Adsefydlu Ardollau ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn a gwelwyd ei fod yn gweithio'n foddhaol.

Mae gan HCC gyllid sylweddol hefyd gan Lywodraeth Cymru drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru, tuag at gyflawni amcanion cynaliadwyedd a datblygu'r diwydiant. Cafwyd y cyllid terfynol gan y Rhaglen Allforio Uwch yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

## Ystyriaethau a materion allweddol

Mae HCC yn cadw cofrestr risg sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Fel y digwyddodd yn y flwyddyn flaenorol, roedd y flwyddyn flaenorol yn golygu bod angen ailedrych ar y ddogfen hon yn aml yng ngoleuni canllawiau COVID, effaith y pandemig ar y sector bwyd a ffermio, a materion allanol eraill.

Roedd COVID yn cynnig heriau parhaus i bob agwedd ar weithrediadau HCC. Cynhaliwyd cyfarfodydd y Bwrdd dros Teams am y rhan fwyaf o'r cyfnod, gan symud i drefniadau mwy hybrid ac wyneb yn wyneb tua diwedd y flwyddyn. Cafodd esblygiad mewn dulliau gweithredu a dangosyddion perfformiad allweddol o ganlyniad i gyfyngiadau COVID eu trafod yn llawn.

Cafodd y bygythiad mwyaf o ran ansicrwydd ynghylch Brexit – canlyniad anhrefnus 'Dim Cytundeb' ar ddiwedd y cyfnod pontio, wedi'i ddilyn gan dariffau WTO o rhwng 40-90% ar allforion cig eidion a chig oen – ei osgoi tua diwedd y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae materion sy'n deillio o Brexit, yn enwedig y baich gweinyddol cynyddol ar allforwyr a phrinder llafur, wedi parhau i greu anawsterau yn yr amgylchedd masnachu.

Cafodd ansicrwydd ynghylch cynllun Dynodiad Daearyddol newydd y DU (GI) i ddisodli PGI yn y farchnad ddomestig ei ddatrys i raddau helaeth drwy weithredu system gyfochrog, gyda chanllawiau'n cael eu rhoi i broseswyr, ond nid oes sicrwydd ynghylch sut y gellir disodli cyllid Ewropeaidd ar gyfer hyrwyddo Dynodiadau Daearyddol. Mae'r drefn taliadau fferm a datblygu gwledig yn y dyfodol yn dal i gael ei phenderfynu hefyd.

Symudodd y ffocws gwleidyddol i drefniadau masnachu ar ôl Brexit. Ar gyfer y sector cig coch, ychydig iawn o gyfleoedd sydd gan y Cytundebau Masnach Rydd sydd wedi'u llunio gydag Awstralia a Seland Newydd ac mae iddynt risgiau hirdymor sylweddol o ran mwy o gystadleuaeth o fewnforion i'r farchnad ddomestig. Er na chytunwyd ar gontractau masnach tymor byr a oedd yn

cynnig cyfleoedd allforio sylweddol, gwelodd y cyfnod hwn y symudiadau tymor hir i ddileu'r rhwystrau i allforio cig oen i UDA yn dod i ben yn llwyddiannus.

Roedd Sterling yn dal yn gymharol wan a helpodd ein cystadleurwydd dramor, a pharhaodd effaith Clwy Affricanaidd y Moch yn Tsieina i ganolbwyntio ymdrechion rhai o'n prif gystadleuwyr rhyngwladol tuag at y farchnad Asiaidd.

Roedd Covid wedi parhau i leddfu rhai o'r heriau hirdymor i HCC yn ystod y flwyddyn hon, gyda gwerthiant domestig cryf o gig coch yn ystod 2021 wrth i ddefnyddwyr barhau i goginio mwy o brydau bwyd i'r teulu gartref.

Fodd bynnag, tua diwedd y cyfnod, dechreuodd patrymau masnachu cyn Covid ailymddangos, ochr yn ochr â chynnydd sylweddol mewn chwyddiant (wedi'i waethygu gan wrthdaro yn yr Wcráin) a oedd yn bygwth arwain at batrymau prynu dirwasgiadol ymysg defnyddwyr. Nid oedd effaith hyn yn glir, fodd bynnag, roedd posibilrwydd o symud oddi wrth brynu proteinau cymharol bremiwm megis Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru.

Mae mwy o bryder ynghylch cynaliadwyedd a'r amgylchedd yn fater cyson amlwg, y mae HCC wedi parhau i ymateb iddo gydag ymgyrchoedd marchnata defnyddwyr a rhaglen o gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, wedi'i hategu gan ddadansoddiad gwyddonol annibynnol, er mwyn rhoi arweiniad i'r diwydiant a thystiolaeth ar stori gadarnhaol cynaliadwyedd cynhyrchu cig coch yng Nghymru.

Roedd heriau tymor hir o ran strwythur y diwydiant yn parhau; mae'r rhain yn cynnwys nifer fawr o fusnesau bach iawn fel prif gyflenwyr a heriau i hyfywedd proseswyr llai.

**Dadansoddi Perfformiad**

Yn ei broses cynllunio busnes, mae HCC yn datblygu Cynllun Corfforaethol tair blynedd yn unol â'i Weledigaeth flaenllaw. Datblygir dangosyddion perfformiad allweddol i fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn, ac adroddir arnynt yn rheolaidd i Fwrdd y Cyfarwyddwyr a Gweinidogion Cymru. Cafodd rhai o'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn eu haddasu yn ystod y flwyddyn yng ngoleuni ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Covid, gan gynnwys cyfyngiadau ar y fasnach gwasanaethau bwyd mewn nifer o farchnadoedd, canslo digwyddiadau, gofynion cadw pellter cymdeithasol a newidiadau yn y ffordd mae'r cyhoedd yn defnyddio gwahanol fathau o gyfryngau.

Roedd strategaethau marchnata defnyddwyr ym marchnad y DU yn parhau i gael eu harwain gan gyfryngau digidol. Roedd y dull hwn wedi bod yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn flaenorol, a chafodd ei adnewyddu a'i ddwysáu yn 2021-22, gan fanteisio ar gynnydd yn nifer y bobl sy'n coginio gartref o'r dechrau oherwydd cyfyngiadau Covid. Roedd y gwaith yn cynnwys fideo a chynnwys arall a oedd yn defnyddio cogyddion blaenllaw.

Cynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd hyrwyddo tymhorol penodol, gan gynnwys gweithgarwch ar y cyd ledled y DU o amgylch Wythnos Caru Cig Oen ddechrau mis Medi, a hyrddiau penodol o hyrwyddo brandiau Cymru, yn benodol 'Diwrnod Cig Oen' ar Awst 1, hysbysebion cig eidion yn gysylltiedig â'r gystadleuaeth brechdan stêc boblogaidd, ac Wythnos Porc o Gymru yn gynnar yn 2022.

Roedd deunyddiau hyrwyddo'n dal i gael eu cynhyrchu ar gyfer cigyddion annibynnol, ac roedd sianeli cyfryngau cymdeithasol penodol ar gyfer Clwb Cigyddion HCC wedi nodi llawer mwy o draffig dros y flwyddyn.

Er bod partneriaethau â nifer o adwerthwyr yn anodd yn 2020-21 oherwydd amharodrwydd i gyflwyno hysbysebion pwynt gwerthu mewn siopau yn ystod cyfyngiadau Covid, roedd gweithgareddau o'r fath yn llwyddiannus iawn yn 2021-22.

Mae prif adwerthwr premiwm wedi stocio Cig Oen Cymru PGI drwy ei holl siopau yn Lloegr yn ystod anterth cynhyrchu tymhorol, gyda sawl elfen o weithgarwch marchnata gyda chefnogaeth HCC. Arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol iawn mewn gwerthiant, gydag elw ar fuddsoddiad mewn ardoll o 19:1.

Roedd mwy nag un adwerthwr premiwm yn hyrwyddo Cig Oen Cymru drwy ei gylchgronau mewnol, ac roedd un o adwerthwyr mwyaf y DU yn cynnwys hysbysebion Cig Oen Cymru ar ei ddeunyddiau hyrwyddo ar-lein cyn y Nadolig, a gweithiodd cadwyn genedlaethol gyda HCC ar hyrwyddo Cig Eidion Cymru ddiwedd 2021 ac yn gynnar yn 2022.

Darparwyd cymorth i nifer o gwmnïau gwasanaethau bwyd wrth i'r sector ddechrau dod allan o gyfyngiadau Covid.

Wrth i gyfyngiadau Covid ddechrau llacio yn ail hanner y cyfnod, roedd digwyddiadau hyrwyddo wyneb yn wyneb yn bosibl eto. Defnyddiodd HCC ei theatr goginio symudol newydd ar gyfer digwyddiadau gan gynnwys Gŵyl Fwyd y Fenni a digwyddiad y Nadolig Countryfile, i dargedu demograffeg allweddol.

Roedd digwyddiadau ffisegol a hyrwyddo ar y cyd gan adwerthwyr yn cynnig cyfleoedd i gynyddu'r gronfa ddata o gysylltiadau e-bost. Roedd y rhestr e-bost 'Teulu Cig Oen Cymru' yn cynnwys dros 30,000 o danysgrifwyr erbyn diwedd y cyfnod, gan gynnig dull cost-effeithiol iawn o gysylltu â defnyddwyr allweddol yn rheolaidd.

Dangosodd ymchwil i ganfyddiadau defnyddwyr o frand Cig Oen Cymru wybodaeth galonogol. Yn gyffredinol, barn siopwyr o Loegr am Gig Oen Cymru oedd ei fod yn naturiol, yn ffres ac yn ddigyfaddawd o leoliad gwledig glân, gyda safonau lles uchel. Roedd y brand yn gysylltiedig ag ansawdd uchel a safonau cynaliadwyedd da ymysg defnyddwyr yn Lloegr.

Fe wnaeth HCC fuddsoddi'n sylweddol i gynhyrchu a dosbarthu cyfres newydd o adnoddau addysgol, sy'n cynnwys sgiliau coginio, tarddiad bwyd, maeth a chynaliadwyedd. Roedd yr adnoddau'n cynnwys pecynnau sy'n barod ar gyfer gwersi, gweithgareddau, fideos a llyfrau, ac fe'u datblygwyd ar y cyd ag athrawon er mwyn bod yn briodol ar gyfer y cwricwlwm sy'n cael ei addysgu mewn ysgolion ar gyfer plant 3 i 16 oed. Lansiwyd gwefan newydd i fod yn gartref i adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes addysg ac iechyd – redmeathub.wales / hwbcigcoch.cymru

Roedd data masnach adwerthu ar gyfer cig coch yn dangos galw bywiog parhaus ym mlwyddyn galendr 2021. Roedd gwerthiant swmp ychydig yn is nag ydoedd yn ystod cyfnod clo gorlawn 2020, gyda gwerthiant cig oen Prydain i lawr 3% er enghraifft. Serch hynny, roedd y ffigurau'n uwch na 2019, gyda chymorth gwerthiant cryf dros y Nadolig a pherfformiad cryf ymysg teuluoedd iau o'i gymharu â normau diweddar.

Roedd gwerthiant cig eidion yn dangos patrwm tebyg o fod ychydig yn is na 2020, ond yn uwch na'r cyfartaledd yn y tymor hwy. Yn achos cig eidion, yr oedd data gwerthiant yn dangos tuedd galonogol o ran cydbwysedd y carcas, gyda llai o'r carcas yn cael ei werthu fel briwgig a mwy'n cael ei werthu fel toriadau premiwm, gan wrthdroi patrymau defnyddio o ran defnydd tua diwedd y 2010au.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, fodd bynnag, roedd chwyddiant oedd yn cynyddu'n gyflym a phobl yn dychwelyd i batrymau siopa cyn y pandemig yn bygwth yr enillion hyn ar gyfer y sector cig coch premiwm.

Mae effaith aflonyddol Covid i'w gweld yn amlwg ym mherfformiad allforio cig coch Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, nid oedd yr effaith ar allforion mor fawr ag y gallai fod, diolch i barhad masnach heb dariffau gydag Ewrop, a chyfraddau cyfnewid ffafriol.

Roedd gwerth allforion cig coch yn parhau dros £200m yn ystod blwyddyn galendr 2021. Roedd yr allforion i Ewrop yn gadarn yn unol â gwerth y blynyddoedd blaenorol; roedd masnach â Ffrainc, er enghraifft, wedi adlamu ar ôl 2020 amharedig. Fodd bynnag, roedd gwerthiant yn is i rai marchnadoedd ymhellach i ffwrdd a rhai newydd. Mae hyn oherwydd pwysigrwydd masnach gwasanaethau bwyd i allforion cig coch Cymru yn y marchnadoedd hynny, sy'n golygu bod amhariad Covid wedi cael effaith fawr ar y sector lletygarwch. Hefyd, roedd galw domestig cryf a chyflenwad da o anifeiliaid yn golygu bod llai o gynnyrch ar gael i farchnadoedd gwasanaeth y tu allan i'r DU a'r UE.

Roedd digwyddiadau masnach yn dal i gael eu cyfyngu'n ddifrifol gan gyfyngiadau Covid, ond parhaodd HCC i ymgymryd â rhaglenni marchnata allforio llwyddiannus, gan ddarparu gwerth am arian ardoll a fuddsoddwyd a Rhaglen Allforio Uwch Llywodraeth Cymru.

Felly, parhaodd ymgyrchoedd HCC mewn marchnadoedd allforio allweddol i fod yn fwy digidol eu ffocws gyda fideos yn cael eu cynhyrchu mewn sawl iaith, er eu bod yn cael eu hyrwyddo'n ffisegol lle'r oedd amgylchiadau lleol yn caniatáu, er enghraifft drwy noddi cyfres o ddigwyddiadau golff yng Ngwlad Belg a'r Iseldiroedd.

Tua diwedd y cyfnod, dechreuodd digwyddiadau ailddechrau. Roedd gan HCC bresenoldeb sylweddol yn y sioe fasnach Gulfood yn yr Emiradau Arabaidd Unedig, a oedd yn rhan o ymgyrch ar y cyd o weithgareddau a oedd hefyd yn cynnwys digwyddiadau yn y Dubai Expo a gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus. Nod y cynnig hwn oedd sicrhau bod Cig Oen Cymru mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y sector lletygarwch yn ailagor yn y Dwyrain Canol ac ailddechrau twf o ran gwerthiant yn y rhanbarth hwn a oedd wedi bod yn fywiog yn 2019-20.

Parhaodd y gwaith gyda Phartneriaeth Ardystio Allforio'r DU, er mwyn codi'r cyfyngiadau ar fynediad i'r farchnad mewn nifer o wledydd. Cafodd y rhwystrau i allforio cig oen i UDA eu dileu o'r diwedd, a disgwylir i archwiliadau o ffatrïoedd gael eu cynnal yn nes ymlaen yn 2022.

Roedd adnoddau'n dal i gael eu blaenoriaethu wrth gyfathrebu, drwy ddulliau digidol yn bennaf, â'r diwydiant a rhanddeiliaid er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am wybodaeth am y farchnad. Darparwyd gwybodaeth i lefarwyr y cyfryngau o sefydliadau eraill yn y diwydiant yn ogystal â HCC yn manteisio ar gyfleoedd i roi gwybod i'r cyhoedd yn ehangach am heriau'r pandemig i'r diwydiant.

Pan gafodd cyfyngiadau Covid eu llacio, cynhaliodd HCC bum cyfarfod rhanbarthol ar y fferm i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rheini sy'n talu'r ardoll yn hydref 2021. Roedd hyn yn gyfle i gael trafodaeth wyneb yn wyneb nad oedd wedi bod yn bosibl ers dros 18 mis, er mwyn mesur barn cynhyrchwyr a llywio strategaeth HCC o ran marchnata, gwybodaeth am y farchnad ac ymchwil.

Parhaodd HCC i sicrhau bod archwiliadau'n sail i onestrwydd brandiau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI. Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr wyddoniaeth fforensig a oedd ar gael i gefnogi system olrhain Cig Oen Cymru ei hymestyn i gynnwys Cig Eidion Cymru. Cafodd y systemau eu profi yn ystod hydref 2021 gydag achos o gam-labelu sydd wedi'i gyhoeddi'n helaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, bu HCC a swyddogion safonau masnach lleol yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau ateb cyflym a boddhaol.

Yn dilyn lansio glasbrint HCC ar gyfer ffermio cynaliadwy – Y Ffordd Gymreig – yn niwedd 2020, lluniwyd canllaw ymarferol i ffermwyr, o'r enw Perffeithio'r Ffordd Gymreig. Roedd hyn yn cynnwys cyngor ar ddulliau ar y fferm i leihau allyriadau, yn seiliedig ar ymchwil annibynnol. Cafodd hyn ei gyfleu drwy nifer o sianeli, gan gynnwys cyfryngau sy'n cael eu hennill a'r rhai sy'n cael eu talu, a dyma oedd canolbwynt presenoldeb HCC yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru.

I atgyfnerthu ei waith ar gynaliadwyedd a chyfathrebu Perffeithio'r Ffordd Gymreig, cymerodd HCC ran mewn nifer o weithgareddau yn ymwneud â chynhadledd COP26. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth panel fel rhan o weithgarwch COP Cymru yn y wasg, a chyflwyno tystiolaeth drwy'r Bwrdd Crwn Byd-eang ar Gig Eidion Cynaliadwy a'r Gynghrair Cig Byd-eang. Cynhaliwyd cyfres barhaus o gyfarfodydd a chyfleoedd ymgysylltu gyda llunwyr polisi ym maes cynaliadwyedd.

Yn ystod y flwyddyn, aeth HCC, ar ei ben ei hun weithiau a dro arall ar y cyd â chyrff ardollau eraill, i'r afael â nifer o faterion lle'r oedd cig coch a chynaliadwyedd wedi cael eu camliwio yn y cyfryngau.

Roedd cynaliadwyedd unwaith eto'n thema ganolog yng nghynhadledd flynyddol HCC. Cafodd hyn ei gynnal fel digwyddiad rhithwir a digwyddiad wyneb yn wyneb hybrid ym mis Tachwedd 2021. Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus gyda nifer o heriau logistaidd a thechnegol sylweddol i'w goresgyn.

O ran gwaith HCC i baratoi'r diwydiant ar gyfer heriau'r dyfodol, aeth Rhaglen Datblygu Cig Coch yr UE a Llywodraeth Cymru yn ei blaen yn gadarnhaol, er gwaethaf addasiadau mewn dulliau darparu oherwydd cyfyngiadau Covid.

Mae'r Rhaglen hon yn cynnwys tri phrosiect strategol sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd yn y diwydiant yn ogystal â gwella argraffiadau'r cyhoedd o Gig Oen a Chig Eidion Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys; Stoc+, prosiect i hybu cynllunio iechyd rhagweithiol ar gyfer diadelloedd a buchesi; Cynllun Hyrddod Mynydd i ddefnyddio technoleg i annog cofnodi perfformiad ymysg y sector defaid mynydd; a phrosiect Ansawdd Cig Oen Cymru, a fydd yn astudio arferion ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi gyda'r nod o sefydlu glasbrint o flas ansawdd a chysondeb.

Mae dros 50 o ddiadelloedd bellach yn gysylltiedig â'r Cynllun Hyrddod Mynydd, a chynhaliwyd gwaith samplu TSU er mwyn parhau â'r ymchwil drwy'r tymor bridio. Yn galonogol, bu cynnydd

yn y diddordeb mewn cofnodi perfformiad yn y diwydiant, gyda chynnydd o 140% yn nifer yr hyrddod perfformiad a gofnodwyd yn cael eu gwerthu.

Roedd y gwaith ar y prosiect Stoc+ yn parhau i ganolbwyntio ar ddod â ffermwyr a milfeddygon at ei gilydd i annog cynlluniau iechyd anifeiliaid rhagweithiol. Mae themâu cyffredin wedi'u nodi, ac mae llinynnau penodol o waith wedi'u datblygu i dreialu dulliau o leihau cyflyrau fel y clafr a chloffni, gwella ffrwythlondeb diadelloedd a buchesi, a gwella profion diagnostig.

Mae cyfyngiadau Covid wedi bod yn her benodol i elfen panel blasu defnyddwyr Prosiect Ansawdd Cig Oen Cymru, ond cynhaliwyd cyfnod llwyddiannus o baneli mewn lleoliadau amrywiol yn Lloegr.

Roedd dadansoddiad gwyddonol o samplau o gig oen a roddwyd ar wahanol ddeietau gorffen yn awgrymu bod gan ŵyn sy'n cael eu bwydo gyda gwair lefelau uwch o asidau amino hanfodol.

Cynhyrchwyd cyhoeddiadau a oedd yn ymwneud â meysydd o'r RMDP er mwyn helpu i gyfleu canfyddiadau'r gwaith, ac roedd allbynnau cyfathrebu fel astudiaethau achos ffermwyr a chanlyniadau prosiectau yn dal i gael eu cyhoeddi'n rheolaidd.

Yn gysylltiedig â Phrosiect Ansawdd Cig Oen Cymru, mae gwaith tymor hir i wella oes silff Cig Oen Cymru er mwyn gwella ei gystadleurwydd yn y farchnad drwy fynd i'r afael â materion ym mhob cam o'r gadwyn gyflenwi yn parhau i ddangos enillion. Gan nad yw'n bosibl dethol hyfforddiant ar gyfer lladd mewn lladd-dai oherwydd Covid, addaswyd hyfforddiant o'r fath i'w ddarparu'n rhithiol mewn partneriaeth â phroseswyr.

Bu datblygiadau yn y prosiect BeefQ hefyd, sy'n brosiect arall sy'n cael ei ariannu gan y Rhaglen Datblygu Gwledig ac yn cael ei arwain gan IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth, ar y cyd â HCC a rhanddeiliaid eraill. Ei nod yw profi systemau cynhyrchu a phrosesu Cig Eidion Cymru gan ddefnyddio system raddio'r Asiantaeth Safonau Cig (MSA).

Defnyddiwyd nifer o feysydd ymchwil a datblygu yn ystod y flwyddyn, a'r rheini'n aml wedi'u cyllido ar y cyd ag eraill. Roedd hyn yn cynnwys parhau i weithio gyda Phrifysgol Bangor ar gynaliadwyedd amgylcheddol ffermio da byw yng Nghymru, a gyda Phrifysgol Aberystwyth ar astudiaeth i ddatblygu cynnyrch uchel ei werth heb fod yn fwyd o ffrydiau gwastraff proseswyr.

Mae gweithgarwch ymchwil cydweithredol sydd wedi'i sefydlu ers tro wedi parhau, fel cefnogi'r Rhestr o Laswellt a Meillion a Argymhellir a mentrau ar y cyd â byrddau ardollau eraill yn y DU fel GrasscheckGB a phrosiect RamCompare.

Oherwydd cyfyngiadau Covid, cafodd ysgoloriaeth deithio HCC ei hatal am flwyddyn arall, ond roedd cynlluniau ar waith i ail-lansio yn ystod 2022.

Dros y flwyddyn, rhoddodd HCC gyngor arbenigol i lywodraethau a seneddwyr ar nifer o faterion allweddol i'r diwydiant. Cafwyd nifer fawr o ymatebion i ymholiadau ar faterion sy'n ymwneud â chytundebau masnach yn y dyfodol a'u heffaith bosibl ar y sector cig coch yng Nghymru. Cyfrannodd HCC dystiolaeth hefyd ar gynaliadwyedd, ac ar faterion ôl-Brexit fel prinder llafur a chyllid ar ôl yr UE.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno ynghlwm eu hadroddiad, ynghyd â datganiadau ariannol archwiliedig y cwmni, ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022.

**1. Canlyniadau**

Y canlyniad ar gyfer y flwyddyn oedd diffyg o £76,084 (gwarged 2021: £217,437).

**2. Prif Weithgaredd ac Adroddiad Strategol**

Prif weithgaredd y cwmni yn ystod y flwyddyn oedd datblygu a hybu cig coch Cymru.
Mae HCC wedi gweithio tuag at dargedau yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2019-22 ac amcanion Gweledigaeth 2025. Mae'r rhain wedi'u nodi yn yr Adroddiad Blynyddol ar dudalennau 1 i 8.

Mae'r canlyniad ar gyfer y flwyddyn i'w weld yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar dudalen 24 ac mae sefyllfa'r cwmni ar ddiwedd y flwyddyn i'w weld yn y Fantolen ar dudalen 25.
Dyma'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y cwmni:

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Incwm o'r ardoll | 4,286,603 | 3,461,289 |
| Incwm o grantiau | 2,122,651 | 2,537,084 |
| Gwarged/(diffyg) gweithredol | (62,269) | 227,929 |

Roedd incwm yr ardoll a gynhyrchwyd drwy broseswyr Cymru wedi gostwng 10% o ganlyniad i fewnbwn is. Fodd bynnag, eleni oedd blwyddyn gyntaf i'r ardoll gael ei dychwelyd rhwng Byrddau ardollau Prydain Fawr. Cyfrannodd hyn at gynnydd yn yr ardoll o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
Gostyngodd incwm grant o ganlyniad i grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer canolfannau cofnodi pwyntiau canolog, a weinyddwyd gan HCC, a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn ac mae cyllid uniongyrchol ar gyfer gweithgareddau allforio hefyd yn dod i ben.
Roedd gwarged 2021 yn cynnwys gwarged o £194,487 yn deillio o ailbrisio'r eiddo. Gan na chododd hyn yn 2022 bydd costau'r flwyddyn gyfredol yn uwch, ac mae costau corfforaethol uwch wedi arwain at ddiffyg.

Cafodd gwerth marchnad adeilad y swyddfa ei brisio ar 31 Mawrth 2021 fel £600,000. Nid yw Bwrdd HCC yn bwriadu symud o'r adeilad yn y dyfodol agos. Yn unol â pholisi cyfrifyddu'r cwmni, caiff yr adeilad ei brisio eto ym mis Mawrth 2024.

**Polisi Amgylcheddol**

Mae Hybu Cig Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ei weithgareddau'n cael cyn lleied o effaith â phosibl ar yr amgylchedd. Dyma bwyntiau allweddol o'i strategaeth ar gyfer gwneud hyn:

- Lleihau gwastraff drwy werthuso gweithrediadau a sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl;
- Lleihau allyriadau gwenwynig drwy ei ddewis a'i ddefnydd o'i gerbydau a ffynhonnell ei ofynion pŵer;

**Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)**

## 2. Adroddiad Strategol a Phrif Weithgareddau (parhad)

### Polisi Amgylcheddol (parhad)

- Mynd ati'n frwd i hyrwyddo ailgylchu;
- Cyrchu a hybu dewis o gynnyrch i leihau effaith y prosesau cynhyrchu a dosbarthu ar yr amgylchedd.

Mae HCC yn monitro effeithiolrwydd ei bolisi drwy gyflwyno gwybodaeth yn rheolaidd i raglen lleihau carbon Llywodraeth Cymru.

**Gweithwyr**

Mae HCC o'r farn y gall pob gweithiwr cyflogedig (neu ddarpar weithiwr cyflogedig) gyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at nodau'r sefydliad ac mae wedi ymrwymo i ddefnyddio doniau ac adnoddau pawb i'r eithaf. O'r herwydd, ni fydd neb yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas na phartneriaeth sifil, beichiogrwydd na mamolaeth, hil, crefydd na chred, rhyw na chyfeiriadedd rhywiol.

Ar ddiwedd y flwyddyn, dyma'r dadansoddiad o'r rhywiau ymysg y staff amser llawn:

| | Benyw | | Gwryw | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 | 2021 | 2022 | 2021 |
| Staff | 26 | 28 | 8 | 7 |

Dyma'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr, sydd oll yn anweithredol:

| | Benyw | | Gwryw | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 | 2021 | 2022 | 2021 |
| Cyfarwyddwyr | 4 | 4 | 6 | 6 |

Ni ddarperir dim gwybodaeth am faterion cymdeithasol na chymunedol.

## 3. Prif Risgiau ac Ansicrwydd

Amlinellir fframwaith risg y cwmni ar dudalen 14. Mae hwn yn sicrhau bod systemau mewnol HCC yn darganfod risgiau, yn eu monitro ac yn ymateb iddynt.

Y prif risg i'r busnes yw llif arian yng nghyswllt gwariant grant. Mae HCC yn dibynnu ar setlo hawliadau grant yn brydlon. Lle bo oedi cyn talu hawliadau, mae'n rhaid i HCC geisio defnyddio trefniadau eraill er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau.

Yn y gorffennol, prif risg HCC oedd lefel yr incwm o ardollau. O 1 Ebrill 2021 ymlaen, cafodd cyfanswm ardoll Prydain Fawr ei ddychwelyd yn ôl poblogaeth fridio'r gwledydd perthnasol. Yn sgil hyn, cynyddodd incwm ardoll HCC £825,314 ac mae'n lleihau'r risg ariannol o golli incwm ardoll.

Roedd pandemig COVID yn her i bob agwedd ar waith HCC, ac mae'r rhain yn cael sylw manylach yn yr adroddiad blynyddol ar dudalennau 1 i 8. Mae'r risg i'r cwmni wedi'i nodi a'i chofnodi yn y gofrestr risg ac mae'r cynllun gweithredu busnes wedi cael ei ddilyn.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)

### 4. Datblygiadau i'r Dyfodol

Bydd y cwmni'n parhau i ddatblygu a hyrwyddo cig coch Cymru drwy incwm o'r ardoll ac unrhyw incwm sydd ar gael o grantiau.

### 5. Cyfarwyddwyr a'u Buddiannau

Dyma Gyfarwyddwyr y cwmni drwy gydol y cyfnod a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol:

**Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| C M Smith | Ymgynghorydd y Sector Cig Coch; |

**Anweithredol**

| | |
|---|---|
| M J Chapman | Cyfarwyddwr Fortress Womens Counselling And Coaching Limited; |
| D D H Davies | Ffermwr; Cyfarwyddwr Llandre Limited, ANTS (Against Nantyrast Turbines) Limited, NFSCO CIC; Aelod o Fwrdd Ardaloedd Llai Ffafriol NFU Cymru, |
| G R Davies | Prif Weithredwr FarmersMarts (R G Jones) Limited; Cyfarwyddwr Welsh Lamb and Beef Producers Limited, Cymdeithas Defaid Lleyn Cyfyngedig, FarmersMarts (R G Jones) Limited, Partner Vale Vineyard – Gwinllan y Dyffryn |
| G W Davies | Prif Weithredwr, Wynnstay Group PLC; Cyfarwyddwr Banbury Farm and General Supplies Limited, Bibby Agriculture Limited, Glasson Grain Limited, Glasson Group (Lancaster) Limited, Grainlink Limited, Humphrey Feeds Limited, Humphrey Pullets Limited, Humphrey Poultry (Holdings) Limited, Shropshire Grain Limited, Stanton Farm Supplies Limited, Welsh Food Producers Limited, Woodheads Seeds Limited, Wrekin Grain Limited, Wynnstay Group PLC, Wynnstay (Agriculture Supplies) Limited, Wyro Developments Limited, Youngs Animal Feeds Limited |
| J T Davies | Ffermwr; Cyfarwyddwr Cwmbetws Limited, Cymdeithas y Sioe Amaethyddol Frenhinol Cyfyngedig |
| A J P Evershed | Ffermwr |
| R L J Madeley Davies (ymddiswyddodd 8 Awst 2022) | Ymgynghorydd Amaethyddol |
| D P Morgan | Cyfarwyddwr Caffael, Kepak; Cyfarwyddwr Ffrydlan Limited; Ffermwr |
| R E Roberts | Ffermwr; Cyfarwyddwr Heidro Harnog Cyf, Clwb Rygbi Dolgellau Cyf; Aelod o Fwrdd Ardaloedd Llai Ffafriol NFU Cymru; |
| C Williams | Ffermwr |

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)

**6. Cyfalaf Cyfranddaliadau**

Mae'r cwmni'n gyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Cyfyngir atebolrwydd yr aelod i £100.

**7. Yr Archwilwyr**

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd y cwmni yn unol â pharagraff 18(1) o atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**8. Datganiad Llywodraethu**

**Fframwaith Llywodraethu**

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am drefn lywodraethu gorfforaethol y cwmni ac maent wedi mabwysiadu'r arferion a bennir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU, lle bo hyn yn berthnasol ac yn ymarferol.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion HCC ac i ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau sefydliadol yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru".

Cyllidir HCC gan incwm grant, gwerthiannau wedi'u hanfonebu a'r ardoll. Mae gan Weinidogion Cymru y grym i bennu ardoll dan Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010. Caiff y swyddogaethau dan y Mesur eu dirprwyo i HCC drwy gytundeb dirprwyo.

*Bwrdd y Cyfarwyddwyr*

Mae gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr nifer o swyddogaethau pwysig i reoli risg, gan gynnwys gosod y cywair a dylanwadu ar ddiwylliant rheoli risg oddi mewn i HCC a phennu faint o risg sy'n dderbyniol mewn meysydd gweithgaredd penodol. Mae'n gwneud hyn drwy gyfrwng ei bolisi a'i ddull gweithredu cyffredinol.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o arferion Llwgrwobrwyo a Llygru ac mae wedi mabwysiadu polisi i'w hatal.

*Pwyllgor Archwilio a Risg HCC*

Caiff cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ei ddiffinio i gynnwys ystyried

gweithgareddau arfaethedig a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol. Dyma oedd cyfansoddiad y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022:- G W Davies (Cadeirydd); J Davies; G R Davies; A J Evershed

*Pwyllgor Taliadau HCC*

Pwyllgor Taliadau Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n argymell tâl y Prif Weithredwr.

**Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)**
**Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022**

**8. Datganiad Llywodraethu (parhad)**

**Adolygu effeithiolrwydd**
Mae HCC wedi cynnal ei adolygiad ei hun o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg. Hysbyswyd Bwrdd y Cyfarwyddwyr ynghylch goblygiadau adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae systemau'r cwmni'n cael eu hadolygu'n gyson.

Wrth adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol HCC mae'r Pwyllgor Archwilio a

Risg wedi cynnal y gweithgareddau allweddol hyn:

- *Adroddiadau Ariannol*
  Cafwyd dealltwriaeth o'r meysydd sy'n peri'r risgiau ariannol mwyaf ar hyn o bryd a sut mae'r rheolwyr yn ymdrin â nhw'n effeithiol.
- *Datganiadau Ariannol Blynyddol*
  Adolygwyd y datganiadau ariannol blynyddol gan benderfynu a oeddent yn gyflawn ac yn cyd-fynd â'r wybodaeth sy'n hysbys i aelodau'r pwyllgor; aseswyd a yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu'r egwyddorion cyfrifyddu priodol; cyfarfuwyd â'r rheolwyr a'r archwilwyr allanol i adolygu'r datganiadau ariannol a chanlyniadau'r archwiliad.
- *Archwilio Mewnol*
  Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau'r archwilwyr mewnol ar y meysydd a drafodwyd yn ystod y flwyddyn.
- *Archwilio Allanol*
  Adolygwyd cwmpas a dull archwilio arfaethedig yr archwilwyr a gwnaed yn siŵr nad oedd dim cyfyngiadau na therfynau wedi'u gosod ar y cwmpas heb gyfiawnhad.

**Pwrpas y system rheolaeth fewnol**
Bwriad y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i raddau rhesymol, yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd.
Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd i fod i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni polisïau, nodau ac amcanion HCC, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd ac effaith hynny, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.
Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol, ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys.

**Y gallu i drafod risg**
Rhoddir arweiniad i'r broses o reoli risg drwy Fwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)

### 8. Datganiad Llywodraethu (parhad)

Rheolwyr gweithredol HCC yw tîm rheoli risg y cwmni, ac maent yn gyfrifol am ledaenu arferion da ar draws y sefydliad. Rhoddir hyfforddiant i'r tîm gweithredol er mwyn iddynt allu cyflawni'r gwaith hwn.

**Y Fframwaith Risg**
Mae polisi rheoli risg y cwmni'n elfen allweddol o'r system rheolaeth fewnol a'r fframwaith llywodraethu corfforaethol. Mae'n cynnwys agwedd HCC at reoli risg, ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau, y broses o reoli risg a'r trefniadau adolygu.

Pennir archwaeth HCC o ran risg drwy asesu effaith y risg ar nodau, amcanion ac adnoddau ariannol y cwmni.

Mae'r eitemau a ganlyn yn elfennau allweddol yn y system rheolaeth fewnol:
*Cytundeb fframwaith*
Mae cytundeb fframwaith wedi cael ei sefydlu rhwng HCC a Llywodraeth Cymru. Mae'r cytundeb hwn yn rhoi manylion y trefniadau llywodraethu rhwng Llywodraeth Cymru, fel yr unig aelod, a HCC.
*Cofrestr Risg*
Mae gan y cwmni Gofrestr Risg sy'n nodi risgiau ac yn eu sgorio am risg ac effaith. Caiff y gofrestr ei harchwilio'n rheolaidd gan y tîm gweithredol a'i hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Caiff risgiau eu sgorio yn ôl eu tebygolrwydd a'u heffaith. Mae 13 o risgiau strategol a 18 o risgiau gweithredol wedi cael eu nodi. Pennwyd bod 7 o'r risgiau strategol yn hanfodol ar ôl asesu'r mesurau gweddilliol. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- dirwasgiad economaidd byd-eang o ganlyniad i argyfwng ariannol neu bandemig
- amhariad ar fasnach o ganlyniad i gau marchnadoedd allforio presennol, neu darfu arnynt
- gostyngiad mewn niferoedd da byw yn sgil polisi'r llywodraeth;
- argaeledd staff medrus ar draws y gadwyn gyflenwi
- y gadwyn gyflenwi yn llai cystadleuol yn sgil bil y farchnad fewnol yn y DU

mae gan HCC gysylltiadau parhaus â swyddogion ar lefel Cymru a'r DU i'w galluogi i fod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf.

- mae canfyddiad y cyhoedd o gig coch yn cael ei effeithio'n andwyol gan ei fod yn cael ei ddylanwadu gan ofynion iechyd a defnyddwyr.
- Mae cynyddu mewnforion o safonau is yn lleihau'r galw am gig coch yng Nghymru

Mae gan adran gyfathrebu HCC gynllun cyfathrebu i fynd i'r afael a'r rhain
Digwyddiadau annisgwyl yn tarfu ar fusnes.
Mae HCC wedi sefydlu cynllun ymyriadau busnes a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pandemig Covid-19. Mae'r cynllun yn dal i gael ei ystyried wrth i staff ddechrau gweithio dan drefniadau newydd.
*Cynllun Parhad Busnes*
Paratowyd cynllun i ystyried sut y gallai HCC barhau â'i weithgareddau craidd pe bai trychineb yn digwydd.
*Cynllun Busnes*

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)

### 8. Datganiad Llywodraethu (parhad)

Dan drefniadau llywodraethu newydd, mae HCC wedi paratoi Cynllun Busnes 2022-2026 ar gyfer cyfnod y Llywodraeth.

*Cynllun Gweithredol*

Cyflwynir Cynllun Gweithredol Blynyddol a Chyllideb i'r Bwrdd. Cymeradwywyd y Cynllun ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2022.

*Adroddiadau Ariannol*

Bydd adroddiadau ariannol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn rheolaidd.

*Adroddiadau Anariannol*

Mae HCC wedi datblygu System Monitro a Gwerthuso sy'n monitro canlyniadau ac allbynnau yn erbyn y targedau a bennwyd yn y Cynllun Gweithredol. Bydd pob adran a'r tîm gweithredol yn cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni, fod yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol a bod HCC yn rhoi gwerth am arian i'r rheini sy'n talu'r ardoll.

### 9. Absenoldeb Oherwydd Salwch

Yn ystod y flwyddyn, roedd cyfradd absenoldeb oherwydd salwch HCC yn 1.1% (2021: 0.82%).

### 10. Datganiad Ynglŷn â Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr a oedd yn eu swyddi ar y dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo wedi cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr wedi cadarnhau eu bod wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd fel Cyfarwyddwyr er mwyn gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn gwneud yn siŵr ei bod wedi cael ei rhoi i'r Archwilydd.

### 11. Datganiad am Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad y Cyfarwyddwyr, yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae'r gyfraith cwmnïau yn mynnu bod y Cyfarwyddwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y cwmni'n unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ("IFRS").

Mae'r datganiadau ariannol yn ofynnol o dan y gyfraith a'r IFRS er mwyn cyflwyno'n deg berfformiad a sefyllfa ariannol y cwmni. Mae'r cyfeiriadau yn Neddf Cwmnïau 2006 at ddatganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg yn gyfeiriadau at ddatganiadau ariannol o'r fath sy'n rhoi cyflwyniad teg.

O dan y gyfraith cwmnïau, rhaid i Gyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o warged neu ddiffyg y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)

### 11. Datganiad am Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr (parhad)

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

a. dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson;

b. gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;

c. nodi a ydynt wedi cael eu paratoi yn unol ag IFRS fel y cawsant eu mabwysiadu gan yr UE;

d. Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai nad yw'n briodol tybio y bydd y cwmni'n parhau i fasnachu.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y cwmni a datgelu sefyllfa ariannol y cwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac Adroddiad Taliadau'r Cyfarwyddwyr yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni, ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw anghysondeb arall.

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar wefan HCC, ac am gywirdeb y wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

**Drwy Orchymyn y Bwrdd.**

T G Howells
Ysgrifennydd y Cwmni

17 Tachwedd 2022

## Adroddiad Taliadau

### Pwyllgor Taliadau

Pwyllgor Taliadau Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy’n argymell tâl y Prif Weithredwr. Dyma oedd cyfansoddiad y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022:- R L J Madeley-Davies (Cadeirydd), J T Davies, C Smith.

### Datganiad ar y Polisi Taliadau

Mae holl Gyfarwyddwyr y cwmni yn anweithredol, a gan fod y cwmni’n gyfyngedig drwy

warant, nid oes ganddynt unrhyw gyfranddaliadau yn y cwmni.
Penodwyd C Smith yn Gadeirydd o 1 Ebrill 2021 ymlaen am gyfnod o 3 blynedd. Pennwyd ei thaliadau ar uchafswm o £350 y dydd tra bydd yn y swydd.
Ail-benodwyd 5 Cyfarwyddwr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig o 1 Ebrill 2020 am dair blynedd arall, a phenodwyd 3 Cyfarwyddwr o 9 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2023. Penodwyd 2 Gyfarwyddwr o 1 Ebrill 2021 am gyfnod o 3 blynedd. Pennwyd tâl y Cyfarwyddwyr anweithredol ar £300 y dydd ynghyd â threuliau.

### Cofnodion Presenoldeb

Cyfarfu’r Bwrdd 6 gwaith rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022. Dyma nifer y cyfarfodydd o’r Bwrdd yr oedd y Cyfarwyddwyr yn bresennol ynddynt:

| | 2021/2022 | 2020/2021 |
|---|---|---|
| M Chapman | 6 | 6 |
| D D H Davies | 2 | 6 |
| G R Davies | 6 | 6 |
| G W Davies | 4 | 5 |
| J T Davies | 6 | 6 |
| A J Evershed | 6 | - |
| R L J Madeley Davies | 6 | 6 |
| D P Morgan | 5 | 6 |
| R E Roberts | 6 | - |
| C M Smith | 6 | 6 |
| C Williams | 6 | 6 |

Yn ogystal â’r uchod, mae’r Cyfarwyddwyr yn mynychu cyfarfodydd o Is-bwyllgorau’r Bwrdd, yn ogystal â digwyddiadau’r diwydiant yn ystod y flwyddyn.

Penodwyd A J Evershed ac R E Roberts ar 1 Ebrill 2021. Ymddiswyddodd N Porter ar 4 Tachwedd 2020 ac ymddiswyddodd R J L Madeley Davies ar 8 Awst 2022.

## Adroddiad Taliadau (parhad)

### Mae'r adran hon o'r Adroddiad Taliadau yn archwiliadwy

**Enillion y Cyfarwyddwyr**

Dyma Enillion y Cyfarwyddwr a fu'n gwasanaethu drwy'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022:

| | 2022 | 2021 | 2022 | 2021 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| | Taliadau | | Treuliau | |
| Cadeirydd | | | | |
| K Roberts (Cadeirydd hyd at 31-3-21) | - | 25,200 | - | - |
| C Smith (Cadeirydd rhwng 1-4-21) | 20,825 | 3,900 | 794 | - |
| Cyfarwyddwyr Eraill | | | | |
| M Chapman | 3,450 | 3,450 | 101 | - |
| D D H Davies | 1,050 | 3,450 | - | - |
| G R Davies | 3,900 | 3,600 | 88 | - |
| G W Davies | 2,700 | 3,000 | - | - |
| J T Davies | 6,000 | 3,900 | 38 | |
| A J Evershed | 4,200 | - | 83 | - |
| R L J Madeley Davies | 5,550 | 3,900 | 144 | - |
| D P Morgan | 3,450 | 3,600 | 85 | - |
| N Porter | - | 1,800 | - | - |
| R E Roberts | 4,200 | - | 138 | - |
| C Williams | 4,350 | 3,450 | 68 | - |

Telir i aelodau'r Bwrdd am fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, yn is-bwyllgorau'r Bwrdd ac yn nigwyddiadau'r diwydiant.

Ni chafodd yr un o'r Cyfarwyddwyr unrhyw fuddion mewn nwyddau ac nid oeddent yn gymwys i fod yn aelodau o gynllun pensiwn y cwmni. Aethant i dreuliau yng nghyswllt eu dyletswyddau fel Cyfarwyddwyr ac ad-dalwyd unrhyw filltiroedd a deithiasant ar fusnes y cwmni ar gyfraddau cymeradwy Cyllid a Thollau EM.

Yn ychwanegol at y Cyfarwyddwyr, dyma enillion y Prif Weithredwr, T G Howells:

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Taliadau | £110,001 - £115,000 | £110,001 - £115,000 |
| Buddion mewn nwyddau | £4,961 | £3,652 |
| Cyfraniadau pensiwn | £27,247 | £26,323 |
| Cyfraniadau pensiwn – blynyddoedd ychwanegol | £60,000 | - |

Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Cig a Da Byw a roddodd y gorau i gronni ar gyfer y dyfodol ar 31 Mawrth 2022. Gwnaethpwyd cyfraniadau am flynyddoedd ychwanegol ar gyfer 3 aelod o'r cynllun yn lle cau'r cynllun yn gynnar, a'r cyfraniad ar gyfer y Prif Weithredwr oedd £60,000.

## Adroddiad Taliadau (parhad)

### Mae'r adran hon o'r Adroddiad Taliadau yn archwiliadwy

### Datgeliadau Cyflog Teg

| | | 2022 | | 2021 |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm â'r gweithiwr ar y cyflog uchaf | Taliadau | Cyfanswm â'r gweithiwr ar y cyflog uchaf | Taliadau |
| Cymhareb cyflog 25ain Canradd | 4.18 | £27,349 | 4.57 | £24,137 |
| Cymhareb cyflog 50fed Canradd | 2.97 | £38,452 | 3.27 | £33,782 |
| Cymhareb cyflog 75ed Canradd | 2.81 | £40,627 | 2.83 | £38,957 |
| Ystod taliadau staff | | £19,710-£76,063 | | £19,419 - £74,940 |

Cynyddodd cyflog y gweithiwr ar y cyflog uchaf o 3.6%, fel a benderfynwyd gan y Pwyllgor Taliadau.

Cynyddodd y ffigwr 50% oherwydd i'r man canol ddigwydd ar ganol newid mewn graddfa.

1.5% oedd cyfartaledd y newid canrannol mewn taliadau i staff.

T G Howells
Ysgrifennydd y Cwmni

17 Tachwedd 2022

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales

### Barn ar Ddatganiadau Ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022, sy'n cynnwys y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu o bwys. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i ddefnyddio wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifo rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Gyfunol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni ar 31 Mawrth 2022 a'i diffyg am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn ôl y safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Gyfunol; a
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o'r cwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

### Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes byw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.
Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes byw am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.
Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (parhad)

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd arnynt. Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ynghylch y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac oni nodir yn wahanol yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i mi bennu a yw hyn yn golygu bod camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.
Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

**Adroddiad ar ofynion eraill**

### Barn am faterion eraill a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn fy marn i, mae'r rhan o Adroddiad Taliadau'r Cyfarwyddwyr sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.
Yn fy marn i, ar sail y gwaith a gyflawnwyd drwy gydol fy archwiliad:
• mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad y cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol;

• mae adroddiad blynyddol ac adroddiad y cyfarwyddwyr wedi cael eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Ac ystyried y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi gweld camddatganiadau o bwys yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr neu'r Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ar y materion canlynol y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi adrodd wrthych arnynt, os, yn fy marn i:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw, neu nid yw ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau a'r cofnodion cyfrifyddu;
- na wneir datgeliadau penodol am daliadau cyfarwyddwyr fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol;
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae gofyn i mi eu cael ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad oedd gan y Cyfarwyddwyr hawl i fanteisio ar yr eithriad ar gyfer cwmnïau bach wrth baratoi adroddiad y cyfarwyddwyr na manteisio ar yr eithriad ar gyfer cwmnïau bach rhag gorfod paratoi adroddiad strategol.

**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (parhad)**

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr, mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Cyfarwyddwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol, a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai y bernir bod hynny'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwiliwr dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad oes yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel dda o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae camweddau, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiad gyda'r gyfraith a rheolau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn ôl fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamadrodd o ran camweddau, gan gynnwys twyll.

Mae fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

• Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y cwmni a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â Hybu Cig Cymru – polisïau a gweithdrefnau Hybu Cig Cymru sy'n ymwneud â'r canlynol:

- canfod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig;
- y dulliau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

• Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll o ran postio cyfnodolion;

• Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Hybu Cig Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Hybu Cig Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

• adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;

**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (parhad)**

• holi rheolwyr am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
• darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

**Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol (parhad)**

• wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru dulliau rheoli rheolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaethpwyd wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes, ac;

Rwyf hefyd wedi cyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac wedi bod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad manylach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

**Cyfrifoldebau am reoleidd-dra**

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Yr wyf yn gyfrifol am fynegi barn ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Hybu Cig Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
23 Tachwedd 2022

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

## Datganiad o Wariant Cynhwysfawr

| | Nodiadau | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | 5 | 6,444,423 | 6,036,932 |
| **Gwariant** | | | |
| Costau gweithredol | 7 | 6,506,692 | 5,809,003 |
| Gwarged/(Diffyg) Gweithredol | | (62,269) | 227,929 |
| Incwm Cyllid | | 52 | 379 |
| Costau Cyllid | 8 | (13,857) | (10,799) |
| **Gwariant dros ben Incwm Ar Weithgareddau Arferol Cyn Trethu** | 7 | (76,074) | 217,509 |
| Treth | 11 | (10) | (72) |
| **Gwarged a chyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn y gellir ei briodoli i aelod o'r cwmni** | | **(76,084)** | **217,437** |

**Mantolen**

| | Nodiadau | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|---|
| **Asedau Anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 12 | 658,373 | 635,209 |
| Asedau Hawl eu Defnyddio | 13 | 221,229 | 267,305 |
| | | 879,602 | 902,514 |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 14 | 2,639,051 | 1,698,092 |
| Arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian | | 93,264 | 487,668 |
| | | 2,732,315 | 2,185,760 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | | 3,611,917 | 3,088,274 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | |
| Gorddrafft Banc (heb ei ddiogelu) | | 284,974 | 144,164 |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 15 | 1,242,574 | 746,789 |
| Rhwymedigaethau Prydlesau Hawl eu Defnyddio | 16 | 40,503 | 38,860 |
| Rhwymedigaethau treth cyfredol | | 10 | 72 |
| | | 1,568,061 | 929,885 |
| **Rhwymedigaethau Anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau Prydlesau Hawl eu Defnyddio | 16 | 202,930 | 241,379 |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau** | | 1,770,991 | 1,171,264 |
| **Asedau Net** | | 1,840,926 | 1,917,010 |
| | | ======= | ======= |
| **Arian wrth Gefn** | | | |
| Incwm a Gedwir | 18 | 1,840,926 | 1,917,010 |
| | | ======= | ======= |

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022, roedd gan y cwmni hawl i gael ei eithrio o ofynion Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 dan adran 482 o'r Ddeddf hon (cwmnïau nid-er-elw sy'n cael archwiliad sector cyhoeddus). Yn hytrach, bydd yn cael archwiliad sector cyhoeddus ac yn cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cafodd y datganiadau ariannol, sy'n cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian a'r nodiadau cysylltiedig (1 i 24), eu cymeradwyo a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 17 Tachwedd 2022 a'u llofnodi ar ei ran gan



C Smith Cadeirydd



T G Howells Swyddog Cyfrifyddu

## Datganiad Llif Arian

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Llif Arian o Weithgareddau Gweithredol** | | |
| Gwarged/(diffyg) gweithredol | (62,269) | 227,929 |
| Dibrisiant a cholled wrth waredu asedau | 45,631 | (22,028) |
| Ailbrisio Eiddo | - | (150,000) |
| Dibrisiad ar asedau hawl eu defnyddio | 46,145 | 43,000 |
| Taliadau prydlesau gweithredol | 4,128 | 5,851 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio: | | |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach dderbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | (940,959) | 142,825 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnach daladwy a symiau taladwy eraill | 495,785 | (563,234) |
| Arian a wariwyd ar weithrediadau | (411,539) | (315,657) |
| Trethi a dalwyd | (72) | (264) |
| Arian net a wariwyd ar weithgareddau gweithredol | (411,611) | (315,921) |
| **Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi** | | |
| Prynu offer a chyfarpar | (73,795) | (15,305) |
| Enillion wrth waredu asedau | 5,000 | - |
| Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi | (68,795) | (15,305) |
| **Llif Arian o Weithgareddau Cyllido** | | |
| Llog a dderbyniwyd | 52 | 379 |
| Taliadau Lesau Asedau Hawl eu Defnyddio: cyfalaf | (36,875) | (36,737) |
| Taliadau Lesau Asedau Hawl eu Defnyddio: llog | (8,558) | (7,752) |
| Taliadau prydlesau gweithredol | (4,128) | (5,851) |
| Llog gorddrafft banc | (5,299) | (3,047) |
| Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau cyllido | (54,808) | (53,008) |
| **Gostyngiad net mewn arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian** | (535,214) | (384,234) |
| Arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian ar ddechrau'r flwyddyn | 343,504 | 727,738 |
| Arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian diwedd y flwyddyn | (191,710) | 343,504 |
| Arian mewn cyfrifon banc | 93,264 | 487,668 |
| Gorddrafft banc | (284,974) | (144,164) |
| | (191,710) | 343,504 |

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

### 1. Gwybodaeth Gyffredinol

Mae Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales (HCC) yn gwmni atebolrwydd cyfyngedig a

gorfforwyd ac a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cwmni'n gyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Rhif cofrestru'r cwmni yw 4635113 a chyfeiriad ei swyddfa gofrestredig yw Ty Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, SY23 3FF.
Yr unig aelod o'r cwmni gydol y flwyddyn oedd Gweinidogion Cymru.

### 2. Datganiad Cydymffurfio

Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ac yn unol â darpariaethau cymwys Deddf Cwmnïau 2006. Dilynwyd hefyd egwyddorion Llawlyfr Adrodd Ariannol 2021-22 Trysorlys EM.

### 3. Sail Paratoi

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn punnoedd sterling. Fe'u paratowyd ar sail cost hanesyddol ac eithrio'r eiddo rhydd-ddaliadol a gyflwynir ar sail prisiad.

### 4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys

**Datganiadau ariannol ar wahân**

Nid oes angen i'r cwmni baratoi cyfrifon grŵp gan fod y grŵp sy'n cynnwys y cwmni a'i is-gwmni yn syrthio o dan drothwy grwpiau bach Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal â hyn, nid yw Llywodraeth Cymru yn gofyn i gyfrifon grŵp gael eu paratoi.

**Busnes Hyfyw**

Ar 31 Mawrth 2022, mae gan y cwmni asedau net o £1,840,926. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol gan fod y cwmni wedi paratoi cyllideb a rhagolwg llif arian ar gyfer y deuddeg mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, sy'n dangos bod gan y cwmni ddigon o arian i barhau i fodloni ei rwymedigaethau. Ar sail hyn mae'r Cyfarwyddwyr yn ystyried bod y cwmni yn fusnes gweithredol.

**Refeniw**

Mae Refeniw yn cynnwys incwm o'r ardoll, grantiau a gwasanaethau yr anfonebir amdanynt.
Incwm o'r ardoll – codir ardoll statudol am yr holl anifeiliaid sy'n cael eu lladd yng Nghymru i'w bwyta gan bobl. Cydnabyddir yr incwm ar ddyddiad y lladd, hyd at wythnos lawn olaf mis Mawrth. Mae incwm o'r ardoll hefyd yn cynnwys ardoll sy'n cael ei dychwelyd gan gyrff ardollau eraill Prydain o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.
Hawlir grantiau pan fo'r gwariant wedi'i wneud ond cydnabyddir incwm drwy grantiau yn y datganiadau ariannol i gyfateb i'r costau pan fo'r gweithgaredd wedi digwydd. Nid yw incwm o grantiau yn dod o dan gwmpas TAW.
Incwm grant – derbynnir grantiau gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig, sef Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020.
Gwasanaethau yr anfonebir amdanynt – cydnabyddir yr incwm pan fo'r gweithgaredd wedi digwydd. Mae'r cyfryw weithgaredd yn ymwneud â gwasanaethau a gyflawnir ar ran cyrff eraill. Nodir incwm heb gynnwys TAW.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

## 4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys (parhad)

### Eiddo, offer a chyfarpar

Nodir yr eiddo rhydd-ddaliadol adeg ei brisio llai'r dibrisiad cronedig. Ni ddarperir dibrisiad yn y flwyddyn gaffael. Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio. Caiff yr eiddo rhydd-ddaliadol ei brisio bob tair blynedd, oni fod symudiad y farchnad leol, ym marn y Cyfarwyddwyr, yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei brisio'n amlach.
Nodir offer a chyfarpar am eu cost llai'r dibrisiad cronedig.
Dibrisir asedau eiddo rhydd-ddaliadol, offer a chyfarpar i'w gwerth gweddilliol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol ar y seiliau canlynol:

| | |
|---|---|
| Eiddo rhydd-ddaliadol | dros 30 mlynedd o 2009 |
| Cyfarpar cyfrifiadurol | balans gostyngol o 33% |
| Dodrefn Swyddfa | balans gostyngol o 25% |
| Cerbydau | balans gostyngol o 25% |

### Asedau Hawl eu Defnyddio

Caiff prydlesau eu cyfalafu pan fo'r cwmni'n cael budd economaidd o ddefnyddio'r ased hwnnw.
Caiff asedau eu cyfalafu ar werth cyfanswm y taliadau dros gyfnod y brydles. Ni chaiff prydlesau sydd â gwerth canlyniadol o lai na £10,000 eu cyfalafu ac ymdrinnir â nhw fel prydlesau gweithredol.
Caiff eiddo a cherbydau eu dibrisio i'w gwerth gweddilliol dros gyfnod y brydles ar y seiliau canlynol:

| | |
|---|---|
| Eiddo rhydd-ddaliadol | rhwng 5 ac 11 mlynedd |
| Cerbydau modur | 25% llinell syth |

### Amhariad asedau anghyfredol

Ar ddyddiad pob mantolen, mae'r Cwmni'n adolygu symiau cario ei eiddo, offer a chyfarpar ac asedau hawl i ddefnyddio i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled amhariad gan gyfeirio at y cynlluniau gweithredu a'r cynlluniau busnes. Os oes arwydd o'r fath, caiff swm adferadwy'r ased ei amcangyfrif er mwyn canfod maint y golled oherwydd amhariad (os o gwbl).
Y swm adferadwy yw gwerth teg uchaf yr ased ar ôl tynnu'r costau i'w werthu a'r gwerth o'i ddefnyddio. Er mwyn asesu ei werth o'i ddefnyddio, caiff llif arian a ragwelir yn y dyfodol ei ostwng i'w werth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt cyn treth sy'n adlewyrchu asesiadau'r farchnad gyfredol o werth yr arian o ran amser a'r risgiau sy'n benodol i'r ased nad yw'r llif arian a amcangyfrifir i'r dyfodol wedi ei addasu ar gyfer yr ased hwnnw.
Cydnabyddir colled amhariad yn syth yn y datganiad o incwm cynhwysfawr, oni bai fod yr ased priodol yn cael ei gario ar werth wedi'i ailbrisio; os felly, bydd y golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio. Pan fo colled amhariad yn gwrthdroi yn ddiweddarach, bydd swm cario'r ased yn cael ei gynyddu i'r amcangyfrif diwygiedig o'i swm adferadwy, ond fel nad yw'r swm cario cynyddol yn fwy na'r swm cario a fyddai wedi'i bennu pe na byddai colled amhariad wedi'i chydnabod ar gyfer yr ased mewn blynyddoedd blaenorol. Caiff achos o wyrdroi colled amhariad ei gydnabod ar unwaith yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, oni

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys (parhad)

bai fod yr ased priodol yn cael ei gario ar werth wedi'i ailbrisio; os felly, bydd y gwyrdroad yn cael ei drin fel cynnydd ailbrisio.

**Offerynnau Ariannol**
Bydd asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod pan fydd y Cwmni wedi dod yn rhan o ddarpariaethau contract yr offeryn.

**Asedau ariannol**
Derbyniadau drwy fasnach, incwm ardoll sy'n ddyledus ac incwm cronedig:

Caiff derbyniadau drwy fasnach, incwm ardoll sy'n ddyledus ac incwm cronedig eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth teg. Darperir ar gyfer amhariad pan geir tystiolaeth wrthrychol (gan gynnwys cwsmeriaid ag anawsterau ariannol neu sy'n hwyr yn talu) na fydd symiau'n cael eu hadfer yn unol â thelerau gwreiddiol y cytundeb. Sefydlir darpariaeth ar gyfer amhariad pan fo gwerth cario'r eitem dderbyniadwy'n fwy na gwerth presennol llif arian y dyfodol.

**Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod**
Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a blaendaliadau a ddelir gyda sefydliadau ariannol ar alwad ac ar fyr rybudd heb fod yn fwy na thri mis.

**Rhwymedigaethau ariannol**
Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dosbarthu yn ôl sylwedd y trefniadau cytundebol yr ymrwymwyd iddynt.

**Symiau taladwy drwy fasnach**
Cydnabyddir symiau taladwy drwy fasnach yn ôl eu cost i ddechrau.

**Rhwymedigaethau Prydlesau Hawl eu Defnyddio**
Caiff prydlesau eu cyfalafu pan fo'r cwmni'n cael budd economaidd o ddefnyddio'r ased

hwnnw. Caiff yr atebolrwydd cysylltiedig ei gydnabod yn y datganiadau ariannol yn ôl cyfanswm y taliadau dros gyfnod y brydles wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog sylfaenol y cwmni. Mae HCC wedi pennu mai 3.25% dros y gyfradd sylfaenol yw hon (2021:2.5%).

**Prydlesau**
Caiff prydlesau lle bo'r cwmni'n cael budd economaidd o'r brydles eu categoreiddio yn Asedau Hawl eu Defnyddio, fel y diffinnir uchod. Prydlesau gweithredol yw'r prydlesau eraill ac ni chânt eu cydnabod ym mantolen y cwmni. Mae taliadau dan brydlesau gweithredol yn cael eu rhoi ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr fel llinell syth dros gyfnod y brydles.

**Pensiynau**
Mae'r cwmni'n cyfrannu at gynllun pensiwn budd diffiniedig ar gyfer rhai gweithwyr cyflogedig a drosglwyddwyd i'r cwmni dan reoliadau TUPE. Rhoddir cost y pensiynau rheolaidd ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ac mae'n seiliedig ar y costau pensiwn

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys (parhad)

**Pensiynau (parhad)**

disgwyliedig dros gyfnod gwasanaethu'r gweithwyr. Nid yw'r cynllun ar gael i weithwyr newydd erbyn hyn.Mae'r cwmni'n gwneud cyfraniadau diffiniedig at gynlluniau pensiwn unigol ar gyfer ei holl weithwyr eraill. Caiff cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn eu rhoi ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Cafodd y cynlluniau pensiwn eu rhoi at ei gilydd o dan Gynllun Pensiwn Grŵp Hybu Cig Cymru. Mae'r cwmni'n dechrau cyfrannu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl i'r gweithwyr ddechrau yn y swydd.

**Arian Tramor**

Bydd gweithgareddau masnachu arferol ag arian tramor, sef taliadau i gyflenwyr tramor, yn cael eu cofnodi fel sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid ar ddyddiad y trafodiad.

**Amcangyfrifon a Dyfarniadau Cyfrifyddu**

Wrth ddefnyddio polisïau cyfrifyddu'r Cwmni, a ddisgrifir yn gynharach yn y nodyn hwn, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr farnu a gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn gwbl amlwg o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Adolygir amcangyfrifon a rhagdybiaethau sylfaenol yn barhaus. Cydnabyddir cywiriadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod pan fo'r amcangyfrif yn cael ei gywiro os yw'r cywiro'n cael effaith ar y cyfnod hwnnw'n unig neu yng nghyfnod y cywiro a chyfnodau diweddarach os yw'r cywiro'n effeithio ar y cyfnod cyfredol a chyfnodau diweddarach.

Penderfyniadau pwysig wrth roi polisïau cyfrifyddu'r Cwmni ar waith:
Y canlynol yw'r penderfyniadau pwysig, ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud ag amcangyfrifon (gweler isod), y mae'r Cyfarwyddwyr wedi'u gwneud wrth roi polisïau cyfrifyddu'r Cwmni ar waith ac y mae'n rhaid iddynt gael yr effaith fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.
Cydnabod refeniw:
Wrth ddod i farn, ystyriodd y cyfarwyddwyr y meini prawf manwl ar gyfer cydnabod y refeniw a nodir yn IFRS 15 Refeniw.
Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus:
Mae cydnabod amhariad ar ased ariannol yn seiliedig ar ba mor debygol ydynt o adennill gwerth yr asedau ariannol. Felly, wrth gydnabod amhariad mae gofyn gallu cyfiawnhau'r gallu i adennill.
Amhariad ar eiddo, offer a chyfarpar:
Wrth benderfynu a oes amhariad ar eiddo, offer a chyfarpar, mae angen amcangyfrif gwerth-ar-ddefnydd yr unedau sy'n cynhyrchu arian. Mae'r cyfrifiad gwerth-ar-ddefnydd yn gofyn i'r endid amcangyfrif y llifau arian y mae disgwyl iddynt ddeillio o'r uned cynhyrchu arian yn y dyfodol ynghyd â chyfradd ddisgownt addas er mwyn cyfrifo'r gwerth cyfredol.
Rhwymedigaethau pensiwn:
Mae'r Cyfarwyddwyr wedi cael ac wedi ystyried prisiad actiwaraidd ynglŷn â rhwymedigaeth bosibl o safbwynt un o gynlluniau pensiwn y Cwmni, fel y gwelir yn nodyn 21.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 4. Polisïau Cyfrifyddu o Bwys (parhad)

**Ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrif**
Mae'r Cyfarwyddwyr yn credu nad oes dim ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrif yn y cyfrifon ar gyfer y cyfnod.

**Effaith safonau nad ydynt ar waith eto**
Mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried effaith y safonau a'r dehongliadau a gyhoeddwyd ond nad ydynt ar waith eto ac na chawsant eu mabwysiadu'n gynnar gan y cwmni.

### 5. Refeniw

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ardoll | 4,286,603 | 3,461,289 |
| Grantiau a dderbyniwyd: | | |
| : Llywodraeth Cymru – RMDP | 1,932,530 | 1,729,056 |
| : Llywodraeth Cymru – Allforio | 100,000 | 404,000 |
| : Llywodraeth Cymru – CPRC | 90,121 | 404,028 |
| Gwasanaethau | 35,169 | 38,559 |
| | 6,444,423 | 6,036,932 |

O 1 Ebrill 2021 ymlaen, mae cyfanswm incwm ardoll Prydain Fawr wedi cael ei ddychwelyd i'r wlad lle cafodd ei eni. Cynhwysir yn yr ardoll swm o £1,386,208 a dderbyniwyd dan y trefniant hwn. Yn flaenorol, roedd cyrff ardollau Prydain Fawr wedi cytuno ar y cyd ar wariant, dan gronfa wedi'i neilltuo, ar weithgareddau Prydain Fawr sydd o fudd i dalwyr ardollau Prydain Fawr. Roedd HCC yn gallu anfonebu'r gronfa am £26,500 (2021: £278,180).

### 6. Segmentau Gweithredol

Mae'r Bwrdd o'r farn bod y cwmni'n cynnwys dau segment gweithredol, gyda'r ddau yn cyfrannu at ddatblygu a hybu cig coch Cymru. Pennwyd y segmentau yn ôl y ffynhonnell incwm a'r gwariant perthnasol.

Mae'r holl incwm a gynhyrchir gan y busnes yn dod o'r Deyrnas Unedig.

| | | Ardoll | Grantiau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2022 | Refeniw | 4,321,772 | 2,122,651 | 6,444,423 |
| | Gwariant | 4,387,075 | 2,119,617 | 6,506,692 |
| | (Diffyg)/Gwarged Gweithredol | (65,303) | 3,034 | (62,269) |
| 2021 | Refeniw | 3,499,848 | 2,537,084 | 6,036,932 |
| | Gwariant | 3,277,844 | 2,531,159 | 5,809,003 |
| | Gwarged Gweithredol | 222,004 | 5,925 | 227,929 |

Mae'r sector ardoll hefyd yn cynnwys gwasanaethau eraill sy'n ychwanegu at wariant yr ardoll.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 6. Segmentau Gweithredol (parhad)

O ran incwm o ardollau, mae 3 chwmni sy'n gweithredu lladd-dai yng Nghymru yn cyfrif am 14%, 11% a 9% yn y drefn honno (2021: 18%, 12% a 12%) o gyfanswm yr incwm o £6,444,423.
Fel rhan o'r grantiau, y grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a hefyd dan

Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-20 sydd i gyfrif am 32.9% (2021: 42.0%) o gyfanswm yr incwm o £6,444,423.

### 7. Gwariant Uwchlaw Incwm ar Weithgareddau Cyffredin Cyn Treth

Nodir y canlyniad ar ôl codi/(credydu) y canlynol:

| | **2022** | **2021** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Archwilwyr – archwiliad | 18,494 | 17,779 |
| Costau staff (nodyn 9) | 1,616,162 | 1,483,007 |
| Ffioedd y Cyfarwyddwyr (nodyn 10) | 62,413 | 59,250 |
| Dibrisiant | 44,394 | (22,028) |
| Ailbrisio Eiddo | - | (150,000) |
| Dibrisiant: Asedau ROU | 46,145 | 43,000 |
| (Elw)/Colled ar gyfnewidfa dramor | (2,768) | 652 |
| Rhent prydlesau gweithredol – cyfarpar | 4,128 | 4,218 |
| Drwgddyledion (wedi'u hadennill)/wedi'u darparu ar eu cyfer ynghylch yr ardoll sy'n ddyledus | (58,392) | 671 |

**Costau gweithredol**

| | | **2022** | **2021** |
|---|---|---|---|
| | | **£** | **£** |
| Allforio: | Sefydledig | 832,266 | 693,605 |
| | Yn Datblygu | 107,850 | 81,746 |
| | Marchnadoedd Newydd | 50,071 | 56,920 |
| | Grantiau | 100,000 | 403,973 |
| Cartref: | Adwerthu | 245,256 | 224,116 |
| | Defnyddwyr | 933,024 | 818,445 |
| | Gwasanaethau Bwyd | 95,660 | 85,270 |
| Datblygu Brandiau | | 204,323 | 141,349 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | | 2,019,617 | 2,127,186 |
| Gwybodaeth am y Farchnad | | 379,733 | 301,011 |
| Ymchwil a Datblygu | | 123,324 | 83,214 |
| Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi | | 73,182 | 73,202 |
| Costau Corfforaethol | | 1,342,386 | 718,966 |
| Cyfanswm | | 6,506,692 | 5,809,003 |

Caiff costau staff eu priodoli i'r gweithgaredd y maent yn berthnasol iddo.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 8. Costau Cyllid

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Costau llog gorddrafft banc | 5,299 | 3,047 |
| Ffioedd llogau ar Asedau Hawl eu Defnyddio | 8,558 | 7,752 |
| | 13,857 | 10,799 |

### 9. Costau Staff

Roedd costau staff yn cynnwys:

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyflogau | 1,266,308 | 1,240,984 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 128,042 | 125,651 |
| Costau pensiwn eraill | 221,812 | 116,372 |
| | 1,616,162 | 1,483,007 |

Dyma nifer gyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn, ac eithrio Cyfarwyddwyr, a gyflogwyd ar gontractau cyflogaeth y DU, yn ystod y flwyddyn:

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Datblygu Marchnadoedd | 8 | 7 |
| Datblygu'r Diwydiant | 10 | 11 |
| Cyfathrebu | 3 | 4 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 12 | 13 |
| | 33 | 35 |

### 10. Enillion y Cyfarwyddwyr

Dyma enillion y cyfarwyddwyr:

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffioedd | 59,675 | 59,250 |
| Treuliau | 1,538 | - |
| | 61,213 | 59,250 |

Ni wnaed dim taliadau i'r Cyfarwyddwyr fel rhan o gynlluniau pensiwn personol.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 11. Treth

Treth ar incwm cyllid. Nodir y dreth a godwyd isod:

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Treth a godwyd ar gyfer y cyfnod | 10 | 72 |
| | ===== | ===== |

Cysoni cyfanswm y dreth a godwyd:
Nid yw'r cwmni'n ymgymryd ag unrhyw weithgareddau masnachu. Yr unig incwm y telir y dreth gorfforaethol arno yw incwm cyllid.

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Incwm cyllid | 52 | 379 |
| | ===== | ===== |
| Treth sy'n cael ei chodi ar gyfradd treth gorfforaethol y DU o 19% (2021: 19%) | 10 | 72 |
| | ===== | ===== |

### 12. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Roedd Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cynnwys:

| | Tir Rhydd-ddaliadol Ac Eiddo | Cyfarpar Swyddfa | Cerbydau Modur | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | |
| 1 Ebrill 2020 | 450,000 | 86,011 | 19,278 | 555,289 |
| Ychwanegiadau | - | 15,305 | - | 15,305 |
| Ailbrisio | 150,000 | - | - | 150,000 |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 600,000 | 101,316 | 19,278 | 720,594 |
| Ychwanegiadau | - | 73,795 | - | 73,795 |
| Gwarediadau | - | (11,063) | (14,788) | (25,851) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 600,000 | 164,048 | 4,490 | 768,538 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| 1 Ebrill 2020 | 29,524 | 69,685 | 8,204 | 107,413 |
| Swm am y flwyddyn | 14,763 | 5,024 | 2,472 | 22,259 |
| Rhyddhawyd ar ailbrisiad | (44,287) | - | - | (44,287) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | - | 74,709 | 10,676 | 85,385 |
| Swm a godir am y flwyddyn | 25,556 | 17,038 | 953 | 43,547 |
| Gwarediadau | - | (10,218) | (8,549) | (18,767) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 25,556 | 81,529 | 3,080 | 110,165 |
| **Gwerth Net ar Bapur** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 574,444 | 82,519 | 1,410 | 658,373 |
| | ======= | ====== | ====== | ======= |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 600,000 | 26,607 | 8,602 | 635,209 |
| | ======= | ====== | ====== | ======= |

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)**

**12. Eiddo, Offer a Chyfarpar (parhad)**

Cafodd gwerth marchnad yr adeilad ei brisio gan brisiwr annibynnol ar 31 Mawrth 2021 ar werth o £600,000. Gwnaed hyn ar sail meddiant gwag rhydd-ddaliadol gan RJ Chartered Surveyors, gan gymryd cyfnod marchnata o ddwy flynedd. Pe byddai'r adeilad wedi cael ei gario dan y model costau, byddai'r swm cario a gydnabuwyd ar 31 Mawrth 2022 wedi bod yn £587,633 (2021: £614,513).
Gwnaed adolygiad amhariad o'r eiddo, yr offer a'r cyfarpar ac ni ddatgelodd fod angen cofnodi ffi amhariad na newid y cyfraddau dibrisio a ddefnyddir ar hyn o bryd.

**Asedau Anniriaethol**
Gwnaeth ychwanegiadau gwerth £dim (2021:£dim) yn ystod y flwyddyn

13. **Asedau Hawl eu Defnyddio**
Roedd yr Asedau Hawl eu Defnyddio yn cynnwys:

| | **Tir Rhydd-ddaliadol Ac Eiddo** | **Cerbydau Modur** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£** | | **£ £** |
| **Cost neu Brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill | 308,799 | 35,482 | 344,281 |
| Addasiad prisio | 8,668 | (2,624) | 6,044 |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 317,467 | 32,858 | 350,325 |
| Addasiad prisio | 278 | (209) | 69 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 317,745 | 32,649 | 350,394 |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 31,150 | 8,870 | 40,020 |
| Swm am y flwyddyn | 34,785 | 8,215 | 43,000 |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 65,935 | 17,085 | 83,020 |
| Swm am y flwyddyn | 37,982 | 8,163 | 46,145 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 103,917 | 25,248 | 129,165 |
| **Gwerth Net ar Bapur** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2022221229 | 213,272 | 7,401 | 221,229 |
| | ======= | ====== | ====== |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 251,532 | 15,773 | 267,305 |
| | ====== | ====== | ======= |

Mae HCC yn prydlesu eiddo a cherbydau. Caiff yr asedau hyn eu prydlesu i gyd-fynd â natur hanfodol ei incwm.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 14. Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a Symiau Derbyniadwy Eraill

Roedd y Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a'r Symiau Derbyniadwy Eraill yn cynnwys:

| | **2022** | **2021** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Derbyniadau | 3,822 | 984 |
| Incwm ardoll sy'n ddyledus | 302,599 | 235,823 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 2,321,253 | 1,446,087 |
| Swm sy'n ddyledus gan gwmni'r grŵp (nodyn 23) | 11,377 | 15,198 |
| | 2,639,051 | 1,698,092 |

Mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn bod y gwerth ar y llyfrau yn frasamcan o'r gwir werth.

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerir yw 37 diwrnod (2021: 39 diwrnod).

Caniatawyd ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig o incwm ardoll dyledus gwerth £16,667 (2021:£75,059). Cyrhaeddwyd y swm hwn ar ôl adolygu hanes talu dyledwyr unigol ar ddyddiad y fantolen, ac mae'n cynrychioli darpariaethau yn erbyn y symiau cario perthnasol. Mae dadansoddiad o'r symudiad ar y lwfans i'w weld isod:

| | **2022** | **2021** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Ar 1 Ebrill | 75,059 | 74,388 |
| Dyled a ddilëwyd | - | - |
| Adenillwyd yn ystod y flwyddyn | (58,392) | (17,241) |
| Lwfans ychwanegol | - | 17,912 |
| Ar 31 Mawrth | 16,667 | 75,059 |

Mae'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod modd adennill holl gredyd y dyledwyr eraill yn llawn.

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi'r symiau derbyniadwy a oedd heb eu talu ar 31 Mawrth 2022, ond heb amhariad. Ar ôl ystyried hanes taliadau yn y gorffennol, mae'r Cwmni o'r farn bod y balansau yn adferadwy yn y pen draw.

| | **2022** | **2021** |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Hyd at 3 mis oed (2021: 3 mis) | | |
| : derbyniadau | - | - |
| : incwm o ardoll | 71,149 | 25,772 |
| | 71,149 | 25,772 |

Derbyniwyd y symiau i gyd ar ôl diwedd y flwyddyn.

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)**

## 14. Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a Symiau Derbyniadwy Eraill

Wedi'i gynnwys fel rhan o'r rhagdaliadau a'r incwm cronedig mae £1,977,196 (2021: £1,284,185) sy'n ymwneud â gwariant grant. Mae derbyniadau drwy fasnach a derbyniadau eraill yn cynnwys asedau ariannol gwerth £306,421 (2021: £236,807) sy'n cael eu categoreiddio fel benthyciadau a derbyniadau.

Rheoli risg ariannol:

Risg Credyd
Mae risg credyd y cwmni'n deillio'n bennaf o'i falansau o'r incwm ardoll sy'n ddyledus. Gan fod yr ardoll yn dâl statudol sy'n seiliedig ar yr holl anifeiliaid sy'n cael eu lladd ar gyfer y gadwyn fwyd, nid yw HCC yn gallu asesu teilyngdod credyd proseswyr cyn iddynt ddechrau masnachu. Er mwyn lleihau'r risg, mae HCC yn dilyn y gweithdrefnau manwl ar gyfer rheoli credyd.

Risg Hylifedd
Mae'r cwmni'n cadw llygad barcud drwy'r amser ar ei falansau arian o'i gymharu â'i ymrwymiadau dyledus i sicrhau fod ganddo ddigon o arian i dalu rhwymedigaethau'r cwmni pan ddaw'n amser eu talu.

Risg Cyfalaf
Nid yw'r cwmni'n gallu pennu incwm; yn hytrach, pennir cyllidebau gan y Bwrdd bob blwyddyn ar gyfer gwariant arfaethedig, ac yna caiff y cyllidebau hyn eu monitro. Trosglwyddir unrhyw warged i'r cronfeydd wrth gefn.

## 15. Taliadau drwy Fasnach a Thaliadau Eraill

Roedd y Symiau Taladwy drwy Fasnach a'r Symiau Taladwy Eraill yn cynnwys:

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| **Symiau dyledus o fewn blwyddyn** | **£** | **£** |
| Treth o fath arall a nawdd cymdeithasol | 101,569 | 125,792 |
| Symiau Taladwy Eraill | 934,667 | 379,810 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 206,338 | 241,187 |
| | 1,242,574 | 746,789 |

Mae symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill yn cynnwys rhwymedigaethau ariannol £1,141,005 (2021: £530,876) sy'n cael ei gategoreiddio fel rhwymedigaethau ariannol eraill yn ôl cost wedi'i hamorteiddio.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 16. Rhwymedigaethau Prydlesau Hawl eu Defnyddio

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ar 01 Ebrill 2021 | 280,239 | 310,932 |
| Addasiad prisio | 69 | 6,044 |
| Ad-daliadau | (45,433) | (44,489) |
| Costau cyllid | 8,558 | 7,752 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 243,433 | 280,239 |
| Prydlesau sy'n ddyledus: | | |
| O fewn blwyddyn | 40,503 | 38,860 |
| O fewn 5 mlynedd | 111,228 | 119,559 |
| Dros 5 mlynedd | 91,702 | 121,820 |
| | 202,930 | 241,379 |

### 17. Cyfalaf Cyfranddaliadau

Mae'r cwmni'n gyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Cyfyngir atebolrwydd yr aelod i £100.

### 18. Arian Wrth Gefn

| | Incwm |
|---|---|
| | £ |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 1,699,573 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 217,437 |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 1,917,010 |
| Diffyg ar gyfer y flwyddyn | (76,084) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 1,840,926 |

Delir arian wrth gefn i dalu am weithgareddau'r cwmni i'r dyfodol, gan gynnwys amgylchiadau annisgwyl.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 19. Trefniadau prydlesau gweithredol

Ymrwymiadau prydlesau gweithredol na ellir eu canslo:
Ar ddyddiad y fantolen, roedd gan y Cwmni ymrwymiadau'n ddyledus ar gyfer taliadau prydles lleiaf i'r dyfodol, dan brydlesau gweithredol na ellir eu canslo. Mae'r rhain yn ddyledus fel a ganlyn:

| | | 2022 | 2021 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| O fewn blwyddyn | - cyfarpar | 4,759 | 4,640 |
| O fewn pum mlynedd | - cyfarpar | 16,563 | 9,479 |
| | | 21,322 | 14,119 |
| | | ===== | ===== |

Y prif eitemau sy'n cael eu prydlesu yw cyfarpar swyddfa.
Ymdrinnir â'r prydlesau hyn fel prydlesau gweithredol ac ni chânt eu cydnabod ym mantolen y cwmni gan eu bod yn isel eu gwerth, fel y diffinnir yn y polisi cyfrifo. Mae taliadau dan brydlesau gweithredol yn cael eu rhoi ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr fel llinell syth dros gyfnod y brydles.

### 20. Ymrwymiadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2022, roedd y gwariant cyfalaf a gymeradwywyd ac a ymrwymwyd yn £dim (2021: wedi'i gymeradwyo a'i ymrwymo £55,000).

### 21. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Mae'r cwmni'n ymwybodol o rwymedigaeth ddigwyddiadol sy'n £711,000 (2021: £711,000). Cyfyd y rhwymedigaeth ddigwyddiadol o ddarpariaethau a75 o Ddeddf Pensiynau 1995, ac mae'n seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar 31 Mawrth 2020. Nid oes unrhyw brisiadau dilynol wedi'u paratoi gan y cwmni pensiwn.

Mae HCC yn gyflogwr cyfrannog yng Nghynllun Pensiwn y Comisiwn Cig a Da Byw er sicrwydd ei weithwyr cyflogedig. Gallai rhwymedigaeth godi i dalu cyfran o unrhyw ddiffyg yn y cynllun pan fo HCC yn rhoi'r gorau i gyflogi unrhyw un o fewn y cynllun hwnnw, ond gallai'r rhwymedigaeth hon gael ei gohirio dan drefniant dyledion gohiriedig â'r Ymddiriedolwyr. Cyfrifwyd amcangyfrif o'r atebolrwydd hwn ar 31 Mawrth 2020 ac mae'n £711,000.

Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37 yn datgan y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer darpariaethau ac eitemau digwyddiadol. Yn benodol, mae'r safon yn pennu tri o ofynion i rwymedigaeth gael ei chofnodi fel darpariaeth a'i nodi felly ym mantolen y cwmni. Cydnabyddir bod gan HCC rwymedigaeth i'r dyfodol i fodloni'r ddyled hon, a gyfyd o'r sefyllfa bresennol o gyflogi staff sydd yng nghynllun Pensiwn yr MLC. Mae'n bosibl y bydd y rhwymedigaeth honno'n gofyn am all-lif o adnoddau pan fydd y rhwymedigaeth yn crisialu. Fodd bynnag, y trydydd gofyn yw ei bod yn rhaid cael amcangyfrif dibynadwy, ac ym marn y Cyfarwyddwyr, nid yw'r gofyn hwn yn cael ei fodloni. Roedd yr amcangyfrif ym mis Mawrth 2020 yn £711,000 ac ym mis Mawrth 2019 yn £556,000. Roedd yr amcangyfrifon ar gyfer y 4 blynedd blaenorol yn amrywio o £374,000 i £609,000. O'r cyngor pellach a gafwyd, byddai'n ymddangos y gallai

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 21. Rhwymedigaethau Digwyddiadol (parhad)

amrywiadau o’r fath ddigwydd o un flwyddyn i’r llall. Ym marn y Cyfarwyddwyr nid yw hwn yn darparu amcangyfrif dibynadwy.
Ar y sail honno, datgelir y rhwymedigaeth bosibl fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol ac nid fel darpariaeth.

### 22. Trafodion Partïon Perthynol

Gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022, Llywodraeth Cymru oedd yr unig aelod o’r cwmni a’r parti â’r rheolaeth eithaf.

Mae’r cwmni’n cael cyllid drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 a reolir gan Lywodraeth Cymru ac roedd £1,980,227 (2021:£1,723,158) yn dderbyniadwy yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd £1,962,558 (2021:£1,149,132) yn ddyledus, a oedd yn ymwneud â gwariant grant nad oedd wedi’i ad-dalu eto.
Cafwyd cyllid uniongyrchol hefyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021 ar gyfer hyrwyddo allforio a chymorth cyfalaf ar gyfer canolfannau cofnodi canolog. Roedd £100,000 yn dderbyniadwy yn y flwyddyn yng nghyswllt y cyllid allforio, ac roedd £dim yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y grant CPRC ar gyfer £500,000, a gwariwyd £404,028 ohono yn 2021. Daliwyd y balans o £90,121 ar gyfer yr hawliadau terfynol ac fe’i gwariwyd eleni.
Mae trafodion a balansau sy'n ymwneud â’r is-gwmni, EIDCYMRU, yn cael eu rhannu ar wahân yn Nodyn 23.

Bu i FarmersMarts (R G Jones) Limited, arwerthwyr y mae G R Davies yn Brif Weithredwr arnynt, anfonebu’r cwmni am £704 (2021:£1,443) yng nghyswllt costau adennill ardollau.

### 23. Is-fentrau

Y cwmni yw unig aelod, fel gwarant, EIDCYMRU, sy’n gwmni cyfyngedig drwy warant sydd â’i brif leoliad busnes ym Mharc Merlin, Aberystwyth. Mae’r cwmni wedi’i gofrestru yng Nghymru. Mae’n gweithredu'n bennaf fel swyddfa ar gyfer cofnodi symudiadau defaid yn electronig yng Nghymru. Caiff EIDCYMRU ei ariannu’n llawn gan Lywodraeth Cymru, a chaiff y cyfryw gyllid ei ddarparu fel taliadau.
Yn ystod y flwyddyn, bu i HCC ad-dalu costau sy’n ymwneud â gweithgareddau EIDCYMRU, sef £98,104 (2021: £55,249). Ar ddiwedd y flwyddyn mae £11,377 (2021:£15,198) yn ddyledus

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

### 24. Cynlluniau Pensiwn

**Cynllun Pensiwn Personol Grŵp Hybu Cig Cymru**
Cyfrannodd y cwmni at gynlluniau pensiwn personol unigol ar gyfer rhai o'i weithwyr. Caiff cyfraniadau eu rhoi ar y datganiad o incwm cynhwysfawr fel y maent yn digwydd ac roedd y cyfanswm yn £68,849 (2021:£69,641). Roedd cyfraniadau gwerth £5,543 (2021: £5,651) heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

**Cynllun Pensiwn y Comisiwn Cig a Da Byw**
Cyfrannodd y cwmni at gynllun pensiwn diffiniedig hefyd sy'n cael ei redeg gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth. Caeodd y cynllun i groniadau yn y dyfodol a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2022 ac mae'r aelodau bellach wedi'u gohirio.
Yn ystod y flwyddyn, talwyd cyfraniadau gwerth £152,962 (2021:£46,731) ac roedd y cyfraniadau nad oedd wedi cael eu talu ar ddiwedd y flwyddyn yn £3,997 (2021: £3,905). Mae'r gost yn seiliedig ar werthusiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2018. Telir cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfradd o 27% (2021: 27%) o'r cyflogau pensiynadwy. Mae'r cyfraniadau yn y flwyddyn yn cynnwys prynu gwasanaeth blynyddoedd ychwanegol i'r gweithwyr wrth i'r cynllun gau i groniadau yn y dyfodol.

Nid oes gwybodaeth ar gael ynghylch sut mae asedau'r cynllun yn cael eu rhannu rhwng y cyflogwyr cyfrannog. Felly, nid yw'r cwmni'n gallu ystyried y cynllun fel cynllun â'r buddion wedi'u diffinio a chaiff ei ystyried fel petai'n gynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio. Roedd gwerth marchnad holl asedau'r cynllun pensiwn ar 31 Mawrth 2022, fel y'u cyfrifir yn unol ag IAS19, yn £196.5m (2021: £210.9m) sy'n ddigon i ddarparu ar gyfer 102.9% (2021: 96.7%) o werth y buddion a oedd wedi cronni i'r aelodau, ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd mewn enillion.
Mae gwybodaeth bellach am y rhwymedigaeth a allai godi pan na fydd y cwmni'n cyflogi neb o fewn y cynllun hwn mwyach i'w gweld yn nodyn 21.

**Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl – heb fod yn destun archwiliad**

| | | 2022 | | 2021 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Incwm** | | | | |
| Ardoll – Proseswyr Cymreig | | | | |
| Gwartheg | | | 759,766 | 789,530 |
| Defaid | | | 2,077,427 | 2,358,740 |
| Moch | | | 36,702 | 34,839 |
| | | | 2,873,895 | 3183109 |
| Ardoll - wedi'i gwrthbwyso | | | | |
| Gwartheg | | | 741,389 | - |
| Defaid | | | 615,336 | - |
| Moch | | | 29,483 | - |
| | | | 1,386,208 | - |
| Ardoll Gwartheg talwyd i gyrff ardollau'r DU | | | (266,605) | - |
| | | | 1,119,603 | - |
| Cronfa wedi'i Chlustnodi Cyrff Ardollau'r DU | | | 26,500 | 278,180 |
| Incwm Ardoll | | | 4,019,998 | 3,461,289 |
| Gwasanaethau | | | 35,169 | 38,559 |
| Grant Allforio Llywodraeth Cymru | | | 100,000 | 404,000 |
| Grantiau RMDP Llywodraeth Cymru | | | 1,932,530 | 1,729,056 |
| Grant MSW Llywodraeth Cymru | | | 90,121 | 404,028 |
| Llog a dderbyniwyd | | | 52 | 379 |
| | | | 6,177,870 | 6,037,311 |
| Gwariant Uniongyrchol | | | | |
| Allforio: Sefydledig | | 832,266 | | 693,605 |
| Yn Datblygu | | 107,850 | | 81,746 |
| Marchnadoedd Newydd | | 50,071 | | 56,920 |
| Grantiau | | 100,000 | | 403,973 |
| Cartref: Adwerthu | | 245,256 | | 224,116 |
| Defnyddwyr | | 933,024 | | 818,445 |
| Gwasanaethau Bwyd | | 95,660 | | 85,270 |
| Datblygu Brandiau | | 204,323 | | 141,349 |
| Grantiau RMDP Llywodraeth Cymru | | 1,929,496 | | 1,723,158 |
| Grant MSW Llywodraeth Cymru | | 90,121 | | 404,028 |
| Gwybodaeth am y Farchnad | | 379,733 | | 301,011 |
| Ymchwil a Datblygu | | 123,324 | | 83,214 |
| Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi | | 73,182 | | 73,202 |
| Dygwyd ymlaen | | 5,164,306 | 6,177,870 | 5,090,037 |

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r cyfrifon statudol.

## Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl – heb fod yn destun archwiliad

| | | 2022 | | 2021 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Dygwyd ymlaen | | 5,164,306 | 6,177,870 | 5,090,037 |
| Costau Corfforaethol | | | | |
| Costau Archwilio Mewnol ac Allanol | 26,544 | | | 20,780 |
| Drwgddyledion (wedi'u hadennill)/ wedi'u dileu | (58,392) | | | 671 |
| Costau banc | 10,983 | | | 8,661 |
| Costau casglu | 54,246 | | | 45,992 |
| Dibrisiant | 45,599 | | | (22,028) |
| Ailbrisio Eiddo | - | | | (150,000) |
| Dibrisiant: Asedau Hawl eu Defnyddio | 46,145 | | | 43,000 |
| Ffioedd a chostau'r Cyfarwyddwyr | 73,428 | | | 71,742 |
| Llogi offer | 5,101 | | | 6,801 |
| Costau cyllid: Prydlesau Hawl eu Defnyddio | 8,558 | | | 7,752 |
| Yswiriant | 29,961 | | | 29,550 |
| Cymorth TG | 52,010 | | | 48,322 |
| Golau a gwres | 22,340 | | | 17,781 |
| Argraffu, postio a deunyddiau swyddfa | 4,390 | | | 21,764 |
| Gwasanaethau proffesiynol | 206,851 | | | 67,322 |
| Atgyweirio a chynnal a chadw | 17,565 | | | 27,959 |
| Rhent ac ardrethi | 27,901 | | | 23,199 |
| Costau staff | 539,759 | | | 468,210 |
| Mân dreuliau | 16,683 | | | 11,384 |
| Ffôn | 16,428 | | | 17,978 |
| Gorbenion a adferwyd | (56,462) | | | (37,075) |
| | | 1,089,638 | | 729,765 |
| | | | 6253944 | 5819802 |
| Gormod o Wariant Dros Incwm | | | (76,074) | 217,509 |
| | | | ======== | ======= |
| Incwm | | | 6,177,870 | 6,037,311 |
| Gwariant | | | 6,253,944 | 5,819,802 |
| Gormod o Wariant Dros Incwm | | | (76,074) | 217,509 |
| | | | ======== | ======= |

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r cyfrifon statudol.